

# PROFFIL ARDAL

MAWRTH 2021


## Menter Gorllewin Sir Gâr

ymholiad@mgsg.cymru

01239 712934

www.mentergorllewinsirgâr.cymru

Llawr 1af CCF Cyf, Stryd y Bont, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr SA38 9DX

Yr Atom, 18 Stryd y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1BN

# CYNNWYS

Cyflwyniad a nod y gwaith ........ 5
Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol ........ 6
Demograffeg y Gymraeg ........ 8
Ardal Ddaearyddol: ........ 8
Democratiaeth Leol: ........ 8
Demograffeg: ........ 8
Tabl 1. Poblogaeth Wardiau Etholaethol 2001 yn erbyn 2011 ........ 9
Tabl 2. Dwysedd Poblogaeth (2001) ........ 9
Proffil Oed: ........ 10
Ffigwr 1. Proffil oed poblogaeth ardal Menter Gorllewin Sir Gâr ........ 10
Mewnfudo: ........ 11
Tabl 3. Poblogaeth a'r nifer a anwyd yng Nghymru yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr ........ 11
Tabl 4. Mewnfudo ac Allfudo 2011 ........ 12
Tabl 5. Poblogaeth a'r nifer a anwyd yn Loegr yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr ........ 12
Allfudo: ........ 13
Y ffit strategol ........ 14
Gweledigaeth 2050: ........ 14
Maniffesto MIC: ........ 14
Strategaeth Hybu Lleol: ........ 14
Cynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin: ........ 15
Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd: ........ 15
Trosglwyddo Iaith yn y cartref ........ 16
Tabl 6. Nifer sydd yn Siarad Cymraeg 2001 yn erbyn 2011 ........ 16
Tabl 7. Nifer sydd yn Deall Cymraeg 2001 yn erbyn 2011 ........ 17
Tabl 8. Nifer a anwyd yng Nghymru 2001 yn erbyn 2011 ........ 18
Tabl 9. Siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a siroedd cyfagos ........ 18
Tabl 10. Sgiliau Cymraeg a nifer â'u ganwyd yng Nghymru 2011 ........ 19
Trosglwyddiad Iaith: ........ 19
Tabl 11. Trosglwyddiad iaith yn y cartref, ardal Menter Gorllewin Sir Gâr 2011: Niferoedd a chanrannau plant 3-4 sy'n siarad Cymraeg ........ 20
Addysg ........ 23
Tabl 12: Niferoedd Coleg Sir Gâr yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth: ........ 23

Tabl 13. Cylchoedd Ardal y Fenter a chyfanswm nifer plant ar y gofrestr a iaith y rheini ............... 24
Tabl 14. Lleoliadau sesiynau Cymraeg i Blant gyda niferoedd y grwpiau a mynychwyr .................. 25
Cymraeg i Oedolion: ........ 25
Iechyd a Lles ........ 26
Tabl 15: Iechyd cyffredinol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran ........ 26
Tabl 16: Problem iechyd hir dymor neu anabledd yn ôl y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran ....... 26
Y gweithle a’r economi ........ 27
Economi Leol: ........ 27
Tabl 17: Y gallu i siarad Cymraeg gan ddiwydiant ........ 28
Tabl 18: Y gallu i siarad Cymraeg drwy alwedigaeth ........ 28
Tabl 19: Y lefel uchaf o gymhwyster yn ôl sgiliau Iaith Gymraeg ........ 29
Tabl 20: Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yn Sir Gâr a blwyddyn (£) ........ 29
Gwasanaethau: ........ 30
Brexit: ........ 30
Amddifadedd: ........ 30
Tai ac Aelwydydd ........ 31
Tabl 21: Pris tŷ cyfartalog Cymru a Sir Gaerfyrddin, o flwyddyn a ddaeth i ben rhwng mis Medi 2011 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019 (£) ........ 31
Tabl 22: Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl deiliadaeth - Personau Cyfeirio'r Cartref ........ 31
Tabl 23: Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl deiliadaeth - Personau Cyfeirio'r Cartref ........ 32
Fforddiadwyedd: ........ 32
Gweithgareddau Cymunedol ........ 33
Menter Gorllewin Sir Gâr: ........ 33
Mudiadau Lleol: ........ 34
Mudiad Meithrin: ........ 34
Cymraeg i blant: ........ 34
Yr Urdd: ........ 34
Clybiau Ffermwyr Ifanc: ........ 34
Clybiau Ieuenctid Eraill: ........ 35
Clwb yr Urdd: ........ 35
Canolfannau Teulu: ........ 35
Merched y Wawr / Clybiau Gwawr: ........ 35
Tabl 24: Niferoedd aelodaeth Canghennau Mercher y Gwawr a Chlybiau Gwawr yr ardal ............ 35
Yr Atom: ........ 36

Yr Egin: 36
Clybiau Chwaraeon: 36
Chwaraeon Eraill: 36
Papurau Bro: 36
Astudiaethau perthnasol 37
SWOT a PEST Tabl 25 a 26: 37
Gwaith ymchwil 38
Caerfyrddin (trefol): 38
Castell Newydd Emlyn (gwledig): 39
Llanfihangel-ar-arth (gwledig iawn): 40
Y Gymraeg yn Sir Gâr: 40

# Cyflwyniad a nod y gwaith

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi creu proffil ardal er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar draws gorllewin Sir Gâr. Prif waith y Fenter yw datblygu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ardal a hynny gyda phlant a phobl ifanc, teuluoedd, yn y gymuned, gyda busnesau, mudiadau a sefydliadau. Fe wneir hyn trwy gynnal a hyrwyddo gweithgareddau e.e. sesiynau stori a chlwb ieuenctid, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith, cyfarfodydd gyda'r cyngor sir a phartneriaid eraill. Mae ein gwaith yn eang gan gyrraedd pobl o bob oed a chefndir ar hyd a lled yr ardal.

Nod Menter Gorllewin Sir Gâr ar gyfer 2019-2022 yw i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr. Mae'r Fenter yn bwriadu gweithio ar draws themâu'r strategaeth Cymraeg 2050 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu ac ehangu'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu sgiliau ieithyddol, a chyfrannu at greu hinsawdd lle bydd pawb eisiau defnyddio'u Cymraeg. Bydd y gweithgareddau yn amrywio o ran graddfa, lefel ymyrraeth a dulliau gweithredu yn ôl anghenion y gwahanol ardaloedd a'r grwpiau targed, ond byddant i gyd yn anelu at gyflawni canlyniadau ieithyddol penodol, cyfrannu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac annog defnydd o'r iaith. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd; codi hyder siaradwyr Cymraeg; cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; cynyddu lefelau trosglwyddiad iaith yn y cartref, cynyddu'r nifer o oedolion, sy'n mynd ati i ddysgu a gwella eu Cymraeg; cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu addysg Gymraeg; cynyddu defnydd y Gymraeg yn y sector breifat a'r trydydd sector; meithrin a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith; a chynyddu ymwybyddiaeth ohoni. Byddwn yn targedu pob sector gan gydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni'r nod. Bydd y proffil ardal yma yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau er mwyn rhoi arweiniad i lunio rhaglen waith lawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

# Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol

Mae'r Fenter wedi anfon holiadur allan fel rhan o waith Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu darlun o sut mae'r Gymraeg wedi'i heffeithio yn ystod Pandemig Covid-19 a rydym wedi anfon at 110 o fudiadau a grwpiau yn ardal y Fenter. Mae'n bosib bod y sefyllfa wedi newid eto ers ymatebion yr holiadur yma wrth i ni gamu mewn i gyfnod clo arall.
Mewn cwestiwn yn holi 'Ers dechrau'r cyfnod clo (ar ddiwedd mis Mawrth 2020), a ydy eich grŵp wedi 'cwrdd' neu drefnu gweithgareddau'r grŵp yn fwy neu'n llai aml nag yr oedd yn gwneud cyn y cyfnod clo?', dim ond 6.7% atebodd y cwestiwn a nododd 4% eu bod yn cwrdd yn llai aml a 2.7% wedi nodi yr un mor aml.

Mae 98.7% o'r grwpiau yma wedi bodoli ers cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth a 1.3% yn newydd sy'n dangos nid oes llawer o grwpiau wedi'u sefydlu o'r newydd yn ystod y cyfnod clo.
Mae 41.7% wedi nodi bod y grŵp yn cwrdd trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu bron bob amser, 8.8% wedi nodi bod y grŵp yn cwrdd trwy'r Gymraeg yn bennaf, 7% wedi nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ar Saesneg yn hafal, 1.3% wedi nodi Saesneg yn bennaf ac fe wnaeth 41.2% gadel y cwestiwn hwn yn wag.
Mewn cwestiwn ynglŷn â chynnal achlysuron cymdeithasu (dan do) ers dechrau'r cyfnod clo, fe wnaeth 5.3% ateb y cwestiwn, a 5.3% wedi nodi 'NA'.
Yn y cwestiwn 'yn eich barn chi, pe bai'r rheolau presennol ar gadw pellter cymdeithasol yn parhau i fodoli mewn blwyddyn, pa mor debygol yw hi y bydd eich grŵp yn parhau?', fe wnaeth 28% nodi 'tebygol iawn', 22% nodi 'eithaf tebygol', 14% nodi 'ddim yn gwybod', 21% nodi 'eithaf annhebygol' a 12% nodi 'annhebygol iawn'.

Erbyn hyn mae'r Fenter wedi trosglwyddo ei darpariaeth i gyd yn ddigidol ac wedi llwyddo cyrraedd cynulleidfa newydd a chynulleidfa ehangach nag ardal y Fenter. Rydym yn gweithio gyda mudiadau mewn ffordd newydd ac effeithiol er mwyn cynnig sesiynau gwahanol yn ddigidol. Yn dilyn ymatebion i'r holiadur, ni nodwyd bod angen cymorth technoleg ar unrhyw fudiad/grŵp i barhau. Rhaid cofio hefyd mai ciplun yw canlyniadau'r holiadur felly nid oes darlun cyflawn o sefyllfa'r mudiadau ar draws yr ardal yn cael ei gyfleu. Does dim modd defnyddio hwn fel tystiolaeth gadarn o'r sefyllfa oherwydd y diffyg mynediad at bawb ac nid yw pawb sydd wedi derbyn yr holiadur wedi'i lenwi, ffactor sydd tu hwnt i reolaeth y Fenter. Mae angen mwy o ymchwil i effaith Covid-19 ar weithgareddau Cymraeg.

Mae'r rhaid cofio'r pwyntiau isod:

- Nid ydym yn gwybod faint o grwpiau cymunedol sydd mewn gwirionedd.
- Arolwg hunan-lenwi oedd hwn.
- Mae'n bosib mai barn yr unigolion a gwblhaodd yr arolwg hwn yn unig a geir yn yr ymatebion.
- Ymddengys bod rhai mathau o grwpiau wedi bod yn fwy tebygol nag eraill i ymateb i'r arolwg. Mae'n bosib hefyd bod y grwpiau cymunedol sydd wedi ymateb i'r arolwg yn wahanol i'r grwpiau sydd heb

ymateb. Dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg felly gael eu hystyried fel arwyddion o beth allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn y cyfnod hwn yn hytrach nag fel canfyddiadau pendant.

- Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar wybodaeth y gwnaeth ymatebwyr ddewis ei rhoi.
- Nid yw'n bosibl gwybod mwy am brofiadau'r rhai na gynigiodd wybodaeth ychwanegol o gwbl, ac nid oes ffordd o wybod am brofiadau eraill y rhai a gynigiodd wybodaeth. Hynny yw, mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig i'r hyn y dewisodd rhai ymatebwyr ei rannu am faterion penodol.
- Mae angen ystyried hefyd y posibilrwydd bod amgylchiadau arbennig wedi peri i ymatebwyr gynnig (neu beidio â chynnig) gwybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, gallai rhai ymatebwyr fod wedi teimlo awydd i rannu profiadau cadarnhaol neu negyddol yn unig.
- Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg gael eu hystyried fel arwyddion o'r hyn a allai fod yn digwydd i'r grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod dan sylw, yn hytrach nag fel darlun cyflawn a phendant.

# Demograffeg y Gymraeg

## Ardal Ddaearyddol:

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithredu dros ardal orllewinol Sir Gâr. Mae'r ardal yn ymestyn o arfordir Pentywyn yn y de; i fynnu at Ddyffryn Teifi yn y gogledd, sydd yn creu ffin sirol naturiol â Cheredigion; ac o dref Caerfyrddin ac ucheldir mynyddoedd Llanllwni a Phencader yn y dwyrain at y ffin sirol â Sir Benfro yn y gorllewin.

Mae amrywiaeth ddaearyddol ar draws ardal y Fenter, sydd wedi dylanwadu ar ddiwylliant a diwydiant yr ardal - mae arfordir Pentywyn a Thalacharn yn y de yn enwog am ei draethau, rhed yr afonydd Taf, Teifi a'r Tywi ar gyrion yr ardal a nifer o'u hisafonydd trwy'r ardal, ac i'r gogledd mae ucheldir mynydd Llanllwni.

Caerfyrddin yw'r prif dref yn ardal y Fenter, ac mae'n ganolbwynt mân-werthu a gwasanaethau, nid yn unig i ardal y Fenter, ond hefyd i'r rhan helaeth o Sir Gâr. Yn ogystal mae Sanclêr, Hendygwyn-ar-Daf, Castell Newydd Emlyn a Llanybydder yn drefi pwysig yn yr ardal, sydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i'r ardaloedd gwledig.

## Democratiaeth Leol:

Rhennir ardal Menter Gorllewin Sir Gâr i mewn i 16 o wardiau etholaethol:-

Abergwili. Cenarth. Cynwyl Elfed. Hendygwyn-ar-Daf. Llanboidy. Llanfihangel-ar-Arth. Llangeler. Llangynnwr. Llansteffan. Llanybydder. Sanclêr. Tref Caerfyrddin (De). Tref Caerfyrddin (Gogledd). Tref Caerfyrddin (Gorllewin). Tref Talacharn. Trelech.

Rhennir y rhain i mewn i 33 o Gynghorau Cymuned a Thref:

Cyngor Cymuned Abergwili, Cyngor Cymuned Abernant, Cyngor Cymuned Bronwydd, Cyngor Cymuned Cenarth, Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed, Cyngor Cymuned Eglwys Gymyn a Cyngor Tref Hendygwyn-ar-Daf. Cyngor Cymuned Henllan Fallteg. Cyngor Cymuned Llanboidy. Cyngor Cymuned Llanddowror. Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth. Cyngor Cymuned Llangian. Cyngor Cymuned Llangeler. Cyngor Cymuned Llangynnwr. Cyngor Cymuned Llangynin. Cyngor Cymuned Llangynog. Cyngor Cymuned Llanllawddog. Cyngor Cymuned Llanllwni. Cyngor Cymuned Llannewydd a Merthyr. Cyngor Cymuned Llanpumsaint. Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri. Cyngor Cymuned Llanwinio. Cyngor Cymuned Llanybydder. Cyngor Cymuned Meidrim. Cyngor Cymuned Pencarreg. Cyngor Cymuned Pentywyn. Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws. Cyngor Tref Caerfyrddin. Cyngor Tref Castell Newydd Emlyn. Cyngor Tref Sanclêr. Cyngor Tref Talacharn.

## Demograffeg:

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 45,019 o unigolion yn byw yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, sef 26% o holl drigolion Sir Gâr. Mae'r boblogaeth yn amrywio rhwng 2,006 yn y wardiau mwyaf gwledig, i 5,243 yn wardiau dwys Tref Caerfyrddin.

Dros y ddegawd ddiwethaf roedd cynnydd o 2,462 o bobl yn byw yn ardal y Fenter. Mae Tabl 1 yn dangos poblogaeth wardiau etholaethol Menter Gorllewin Sir Gâr yn 2001 a 2011. Gwelir y cynnydd mwyaf yn ward Tref Caerfyrddin (Gorllewin), gyda 931 o bobl ychwanegol (21.59%), yn ogystal â chynnydd sylweddol yn wardiau gwledig y Fenter; yng Nghenarth, Llanybydder, Cynwyl Elfed,

Llangeler a Hendygwyn-ar-Daf gwelir cynnydd o dros 200 o bobl ym mhob un o'r wardiau yma. Ar y llaw arall, daw gostyngiad yn y boblogaeth mewn 4 ward etholaethol – sef Tref Caerfyrddin (Gogledd), Llansteffan, Tref Talacharn a Threlech i'r amlwg. Bu gostyngiad sylweddol yn ward Llansteffan gyda bron i 10% o drigolion yn llai yn 2011 nag yn 2001.

## Tabl 1. Poblogaeth Wardiau Etholaethol 2001 yn erbyn 2011

| Wardiau Etholaethol | Cyfanswm Poblogaeth | | Amrywiant % | Wardiau Etholaethol | Cyfanswm Poblogaeth | | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | | | 2001 | 2011 | |
| **Abergwili** | 2269 | 2315 | 2.03% | **Llansteffan** | 2209 | 2006 | -9.19% |
| **Cenarth** | 1997 | 2214 | 10.87% | **Llanybydder** | 2543 | 2807 | 10.38% |
| **Cynwyl Elfed** | 2743 | 3018 | 10.03% | **Sanclêr** | 2820 | 2995 | 6.21% |
| **Hendygwyn** | 2067 | 2272 | 9.92% | **Tref Caerfyrddin (De)** | 3526 | 3800 | 7.77% |
| **Llanboidy** | 1981 | 2087 | 5.35% | **Tref Caerfyrddin (Gogledd)** | 5291 | 5142 | -2.82% |
| **Llanfihangel-ar-Arth** | 2726 | 2851 | 4.59% | **Tref Caerfyrddin (Gorllewin)** | 4312 | 5243 | 21.59% |
| **Llangeler** | 3220 | 3427 | 6.43% | **Tref Talacharn** | 2942 | 2851 | -3.09% |
| **Llangynnwr** | 2282 | 2381 | 4.34% | **Trelech** | 2091 | 2072 | -0.19% |
| | | | | **CYFANSWM** | **45019** | **47481** | **5.47%** |

Mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio ar draws ardal y Fenter, gyda'r dwysedd uchaf yn wardiau trefol Caerfyrddin, gyda 931 person y km2 yn ward Tref Caerfyrddin (Gogledd), 535 person y km2 yn Nhref Caerfyrddin (Gorllewin), a 541 yn Nhref Caerfyrddin (De). Gwelir y dwysedd isaf yn yr ardaloedd gwledig; 16 person y km2 yn ward Trelech, 21 person y km2 yn ward Llanboidy, a 24 person y km2 yn ward Cynwyl Elfed.

## Tabl 2. Dwysedd Poblogaeth (2001)

| Wardiau Etholaethol | Dwysedd (person y km$^2$) | Wardiau Etholaethol | Dwysedd (person y km$^2$) |
|---|---|---|---|
| Abergwili | 38 | Llansteffan | 31 |
| Cenarth | 48 | Llanybydder | 42 |
| Cynwyl Elfed | 24 | Sanclêr | 99 |
| Hendygwyn | 105 | Tref Caerfyrddin (De) | 541 |
| Llanboidy | 21 | Tref Caerfyrddin (Gogledd) | 931 |
| Llanfihangel-ar-Arth | 32 | Tref Caerfyrddin (Gorllewin) | 535 |
| Llangeler | 56 | Tref Talacharn | 26 |
| Llangynnwr | 102 | Trelech | 16 |

## Proffil Oed:

Gwelwn yn ffigwr 1. proffil oed y boblogaeth yn ardal y Fenter. Ar ben isaf y proffil mae'r nifer o blant llai na 10 mlwydd oed yn weddol isel, tua 500 unigolyn ym mhob oedran. Yn ôl y proffil oed mae nifer uchel o bobl ifanc yn eu harddegau, cyn gostwng yn sylweddol o oed 24 ymlaen nol i nifer isel. Mae'r lefel isel yma yn parhau am gyfnod, gyda phant sylweddol yn y nifer yn eu dauddegau a thridegau. Ar ôl y pant yma, gwelwn gynnydd yn y nifer o bobl dros 40 hyd at tua 48. Yna mae'r nifer yn aros yn sefydlog ac yn uchel tan tua 60, lle gwelwn gynnydd bach arall yn y nifer o bobl yn ei chwedegau. O 70 oed ymlaen, mae'r niferoedd yn gostwng.

## Ffigwr 1. Proffil oed poblogaeth ardal Menter Gorllewin Sir Gâr




Mae proffil oedran poblogaeth ardal y Fenter, yn dangos perthynas agos â'r patrwm ar draws y Sir, ond wrth edrych ar wardiau unigol gwelwn wahaniaethau ar draws yr ardal (gweler atodiad 1).
Ar draws ardal y Fenter, mae'r nifer o blant ifanc rhwng 0 a 19 oed yn weddol wastad, ac ar y cyfan yn isel.
Yn wardiau gwledig y gogledd yng Nghenarth, Llangeler a Chynwyl Elfed, ac yn y wardiau dwyreiniol Abergwili a Llangynnwr ac i'r gorllewin yn Nhalacharn a Llansteffan gwelwn nifer isel iawn o bobl rhwng 20 a thua 39 oed. Mewn rhai wardiau gwelir y nifer o bobl yr oed yma mor isel â 10 unigolyn. Ar y llaw arall, mae ward Sanclêr a ward Tref Caerfyrddin (Gogledd) yn dangos patrwm gwrthwynebol i'r wardiau gwledig, gyda nifer uwch o bobl rhwng 20 a 30 oed. Yn ward Tref Caerfyrddin (Gorllewin) a Thref Caerfyrddin (De), gwelwn sbigyn yn y proffil o bobl rhwng 19 a 22 oed - mae'r proffil yma yn groes i'r patrwm ar draws yr ardal, ond efallai yma, gwelwn orau effaith mewnlifiad pobl ifanc er mwyn cymryd addysg bellach neu uwch - gan fod campws Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant a Champws Coleg Sir Gâr wedi eu lleoli yn y dref.

Mae’r proffil yn dangos bod y ganran uchaf o’r boblogaeth rhwng 40 a 69 oed. Wrth edrych ar broffil oed wardiau unigol, gwelwn fod y boblogaeth oed yma ddim wedi ei wasgaru’n gyfartal ar draws yr ardal. Gwelwn fod canrannau uwch o bobl o’r oed yma i gymharu â gweddill y boblogaeth yn wardiau gwledig Cenarth, Llangeler, Llanfihangel-ar-Arth, Cynwyl Elfed, Abergwili, Llangynnwr, Trelech, Llanboidy, Talacharn a Llansteffan.
Wrth edrych ar y nifer o’r boblogaeth sydd dros 60 oed, gwelwn ym mha wardiau mae’r garfan yma wedi eu clystyru - Cenarth, Llangeler, Llanfihangel-ar-Arth, Llangynnwr a Llansteffan. Mae proffil oed y wardiau yma yn enghraifft nodweddiadol o broffil sydd yn dangos poblogaeth sy’n heneiddio.

## Mewnfudo:

O fewn degawd, mae poblogaeth Sir Gâr wedi cynyddu o 172,842 i 183,777. Yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, dros yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 2,462 o bobl. Ar y cyfan gwelir cynnydd yn y boblogaeth yn y rhan helaeth o wardiau Menter Gorllewin Sir Gâr, heblaw am wardiau Tref Caerfyrddin (Gogledd), Llansteffan, Tref Talacharn a Threlech; sydd wedi gweld gostyngiad yn y nifer o drigolion.
Yn 2001 roedd 70.92% o boblogaeth ardal Menter Gorllewin Sir Gâr wedi eu eni yng Nghymru; Sanclêr, Hendygwyn-ar-Daf, Tref Caerfyrddin (De) a Thref Caerfyrddin (Gogledd) oedd â’r ganran uchaf. Lloegr oedd man geni'r mwyafrif (22.65%) oedd heb eu geni yng Nghymru yn 2001.

Erbyn 2011 gweled gostyngiad yn y ganran o’r boblogaeth oedd wedi eu eni yng Nghymru i 69.21%. Er mae edrych yn fach yw’r gostyngiad, oherwydd dros yr un cyfnod gwelwyd twf yn y boblogaeth o 5.47%, mae’r nifer sydd wedi ei eni yng Nghymru i gymharu a’r boblogaeth gyfan wedi aros yn agos i’r lefel, gyda ond cynnydd o 55. Allwn dehongli, oherwydd bod y nifer o bobl a anwyd yma wedi aros ar lefel, ond bod y boblogaeth wedi cynyddu dros 2,000 mae effaith mewnfudo o ardaloedd arall sydd wedi achosi’r mwyafrif o’r gynnydd yn y boblogaeth.

## Tabl 3. Poblogaeth a’r nifer a anwyd yng Nghymru yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr

| | 2001 | 2011 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | 45,019 | 47,481 | 2,462 |
| **Nifer a anwyd yng Nghymru** | 32,805 | 32,860 | 55 |

Mae’r nifer sydd wedi eu geni yng Nghymru yn gwahaniaethu ar draws ardal y Fenter; gwelir y canrannau isaf o’r boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru yn wardiau gwledig i’r Gogledd a’r Gorllewin - Cenarth (58.13%), Llangeler (59.26%), Trelech (60.47%) a Llanboidy (63.30%). Ar y llaw arall, yn wardiau Tref Caerfyrddin, Abergwili, Llangynnwr a Sanclêr mae’r canran uchaf o bobl wedi eu geni yng Nghymru, gyda dros 70% o’r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru.
Nid yw ystadegau’r cyfrifiad yn dangos os yw’r trigolion wedi byw yn yr ardal erioed, neu wedi symud o ardal arall yng Nghymru. O bwysigrwydd hefyd yw’r mewnfudwyr o rannau eraill o Gymru. Yn ôl ystadegau mewnfudo sirol 2011 (Tabl 4), yn 2011, fe wnaeth 5,900 o bobl mewnfudo o siroedd eraill yng Nghymru a Lloegr i Sir Gâr; gyda 3,500 ohonynt yn symud o rannau eraill o Gymru i Sir Gâr yn 2011, sef 59% o’r mewnfudwyr.

## Tabl 4. Mewnfudo ac Allfudo 2011

| Mewnfudo i Sir Gâr yn 2011 o: | Nifer | Allfudo o Sir Gâr yn 2011 i: | Nifer | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Gymru | 3,500 | Gymru | 3,100 | +400 |
| Loegr | 2,400 | Loegr | 2,000 | +400 |
| **Gymru a Lloegr** | **5,900** | **Gymru a Lloegr** | **5,100** | **+800** |

Symud o siroedd Abertawe, Ceredigion, Sir Benfro, Caerdydd a Chastell Nedd Port Talbot a wnaeth y ganran fwyaf o fewnfudwyr i Sir Gâr.
Yn 2011 roedd bron traean o'r boblogaeth (30.79%) wedi eu geni tu allan i Gymru, 25.15% oedd y ganran a anwyd yn Lloegr, ac heblaw am y boblogaeth a anwyd yn Nghymru, dyma'r cenedligrwydd fwyaf yn ardal y fenter. Dros y degawd gweler gynnydd yn y nifer o bobl yn ardal y fenter a anwyd yn Lloegr.

## Tabl 5. Poblogaeth a'r nifer a anwyd yn Loegr yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr

| | 2001 | 2011 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | 45,019 | 47,481 | 2,462 |
| **Nifer a anwyd yn Loegr** | 10,476 | 11,943 | 1,467 |

Gwelwn y canrannau uchaf o bobl a anwyd yn Lloegr yn wardiau gwledig; Cenarth, Llangeler, Trelech a Llanboidy lle mae bron traean o'r boblogaeth yn wreiddiol o Loegr. Mae llai na 1% o'r boblogaeth wedi eu geni yn ardaloedd arall o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon.
Ond nid yn unig yng Nghymru a Lloegr a anwyd trigolion ardal y Fenter, a gwelwn yn ôl y gwahaniaeth yn nifer y boblogaeth dros y ddegawd, erbyn 2011, mae cynnydd o 0.16% ar lefel 2001 o bobl a anwyd yng Nghymru a chynnydd o 1.96% ar y nifer o bobl a anwyd yn Loegr. Rhwng 2001 a 2011 roedd cynnydd o 54.08% yn y nifer a anwyd tu allan i Gymru neu Loegr yn byw yn ardal y fenter.

Dros y ddegawd ddiwethaf mae mewnfudo o rannau eraill o'r byd wedi cynyddu, ac yng nghyfrifiad 2011 gwelwn bocedi o genedlaethau arall yn anheddu yn ardal y Fenter. Gwelwn ar draws wardiau Tref Caerfyrddin bod nifer o bobl wedi eu geni yn Ewrop, Asia ac Affrica. Yn yr ardaloedd gwledig nifer fechan sydd wedi eu geni tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond, er hynny, mae yna bocedi o fewnfudwyr o dramor; ward Llanybydder sydd a'r ganran uchaf o fewnfudwyr o Ewrop (5.27%), ac o'r rhain, mae 4.03% yn wreiddiol o Wlad Pwyl. Fe wnaeth y rhan fwyaf o fewnfudwyr o dramor symud i ardal Llanybydder rhwng 2004 a 2009, a gwelwn mai ar y cyfan, rhwng 19 a 59 oed oedd oedran pobl pan wnaethon nhw symud i'r Deyrnas Unedig. Mae nifer sylweddol o blant wedi symud i'r Deyrnas Unedig pan yn 0-4 oed. Mae oed y mewnfudwyr o dramor yn awgrymu mae symud am waith wnaeth y rhan helaeth, gan ddod a'u teuluoedd ifanc gyda hwy.

## Allfudo:

Yn 2011 fe wnaeth 5,100 o bobl allfudo o Sir Gâr, ac i siroedd Abertawe, Ceredigion, a Chaerdydd aeth y nifer fwyaf. Y tu allan i Gymru, i Fryste, Cernyw, De Swydd Caerloyw, Swydd Henffordd a Birmingham wnaeth pobl allfudo iddynt.
Yn bennaf, pobl rhwng 16 a 24 oed a wnaeth allfudo o'r sir yn 2011, a gwelwn y rhifau uchaf o'r oed yma yn gadael i Abertawe, Caerdydd a Cheredigion yng Nghymru, ac yn Lloegr i Fryste, Birmingham, Cernyw a De Swydd Caerloyw. Gwelwn fod y rhan helaeth o bobl ifanc sydd yn gadael y Sir, yn symud i ardaloedd trefol sydd hefyd yn gysylltiedig â phrifysgolion.
Nid yw allfudo yn gysylltiedig yn unig â phobl rhwng 16 a 24 oed, gwelwn fod pobl rhwng 25 a 65 oed yn gadael y sir, ac i Sir Benfro, Ceredigion, Cernyw a Swydd Henffordd mae'r canran fwyaf yn mynd.

# Y ffit strategol

## Gweledigaeth 2050:

*"Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru."*

Targedau penodol 2050:

- Nifer siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050

3 Thema Strategol i 2050:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae rhan fwyaf o waith y Mentrau yn disgyn o dan Thema 2, lle welir targed "Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013–15) i 20% erbyn 2050" ond mae elfennau o waith y Mentrau yn themau 1 a 3 hefyd.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

## Maniffesto MIC:

Maniffesto MIC ar gyfer etholiad 2021
https://www.mentrauiaith.cymru/maniffesto/

## Strategaeth Hybu Lleol:

Mae 'Strategaeth Hybu'r Gymraeg, Sir Gâr 20016-21' yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer sefyllfa'r Gymraeg yn y sir drwy gynyddu niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle mae pobl yn gallu siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith ac effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth. Mae llunio'r Strategaeth yn un o ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n ymgorffori ac yn datblygu'r gwaith a wnaed mewn ymateb i ganlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011, sef adroddiad, 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'. Lluniwyd y Strategaeth gan y 19 o gyrff sy'n aelodau o Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg Sir Gâr, ac mae i'r Strategaeth Gynllun Gweithredu sy'n cael ei ddiweddaru pob chwarter ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Strategol Sirol.
Microsoft Word - Strategaeth-Hybu.docx (llyw.cymru)

## Cynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin:

Pwrpas Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSyGA) Sir Gaerfyrddin yw amlinellu sut y byddwn yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y 'Strategaeth'). Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Y nod yw creu cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Ein CSyGA fydd y prif offeryn ar gyfer creu system cynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y CSyGA yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y byddwn yn ymateb i a chyfrannu at weithredu nodau'r Strategaeth.
Welsh (llyw.cymru)

## Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd:

Mae gan Llywodraeth Cymru strategaeth newydd trosglwyddo iaith ac mae gwaith y Mentrau yn ganolog i'r strategaeth hon, mae'r polisi yn canolbwyntio ar 4 peth:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant

Mae gwaith y Mentrau yn ymwneud gyda pob un prif gam o'r strategaeth yma felly.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd.pdf

# Trosglwyddo Iaith yn y cartref

*Sgiliau Iaith:*

Mae yna 21,069 o bobl dros 3 oed yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr yn siarad Cymraeg. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r canran sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Gâr wedi gostwng o 50.3% yn 2001, i 43.9% yn 2011, ac mae'r nifer sydd heb sgiliau yn y Gymraeg wedi cynyddu. Gellir cymharu'r newidiadau yn sgiliau'r Gymraeg ar draws ardal y Fenter dros y ddegawd ddiwethaf, yn y tabl isod.

## Tabl 6. Nifer sydd yn Siarad Cymraeg 2001 yn erbyn 2011

| Wardiau Etholaethol | Cyfanswm Nifer o Siaradwyr Cymraeg (dros 3 oed) | | | % Siaradwyr Cymraeg v Cyfanswm Poblogaeth (dros 3 oed) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | Amrywiaeth | 2001 | 2011 | Amrywiaeth% |
| Abergwili | 1270 | 1257 | -13 | 58.04% | 55.69% | -2.35% |
| Cenarth | 1168 | 1045 | -123 | 59.96% | 48.79% | -11.17% |
| Cynwyl Elfed | 1552 | 1597 | 45 | 58.02% | 54.34% | -3.68% |
| Hendygwyn | 909 | 933 | 24 | 45.47% | 42.39% | -3.08% |
| Llanboidy | 1055 | 993 | -62 | 54.69% | 48.70% | -5.99% |
| Llanfihangel-ar-Arth | 1758 | 1588 | -170 | 66.74% | 57.45% | -9.29% |
| Llangeler | 1888 | 1812 | -76 | 60.57% | 54.46% | -6.11% |
| Llangynnwr | 1200 | 1111 | -89 | 54.15% | 47.99% | -6.16% |
| Llansteffan | 1055 | 870 | -185 | 49.18% | 44.16% | -5.02% |
| Llanybydder | 1595 | 1570 | -25 | 64.94% | 58.63% | -6.31% |
| Sanclêr | 1537 | 1463 | -74 | 60.63% | 50.27% | -10.36% |
| Tref Caerfyrddin (De) | 1538 | 1414 | -124 | 44.68% | 38.19% | -6.49% |
| Tref Caerfyrddin (Gogledd) | 2100 | 1853 | -247 | 41.38% | 37.43% | -3.95% |
| Tref Caerfyrddin (Gorllewin) | 1824 | 1856 | 32 | 43.50% | 37.24% | -6.26% |
| Tref Talacharn | 688 | 619 | -69 | 24.06% | 22.43% | -1.63% |
| Trelech | 1252 | 1088 | -164 | 61.28% | 53.52% | -7.76% |
| **CYFANSWM** | **22389** | **21069** | **-1320** | **51.52%** | **45.83%** | **-5.69%** |

Yn 2001 roedd y canran uchaf o'r boblogaeth oedd yn Siarad Cymraeg yn wardiau gwledig Dyffryn Teifi a'r gorllewin - Llangeler (60.57%), Llanfihangel-ar-Arth (66.74%), Llanybydder (64.94%) a Threlech (61.28%). Roedd y canran isaf o drigolion oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 yn wardiau Tref Talacharn (24.06%), Tref Caerfyrddin (Gogledd) (41.38%) a Thref Caerfyrddin (Gorllewin) (43.50%).
Dros y ddegawd ddiwethaf gwelwyd cwymp yn y nifer sydd yn siarad Cymraeg ar draws ardal y Fenter. Gwelir y cwymp fwyaf yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y wardiau gwledig; Cenarth, Sanclêr, Llanfihangel-ar-Arth, Trelech a Llanybydder.

Collwyd y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg o ward Tref Caerfyrddin (Gogledd), lle gollwyd 247 o siaradwyr Cymraeg o fewn y ddegawd, neu 3.98% o gwymp. Gwelwyd y cwymp mwyaf o ran canran yng Nghenarth, sef 11.18 neu 123 o siaradwyr.

Ar y llaw arall, fe wnaeth y nifer o siaradwyr Cymraeg godi yn wardiau Cynwyl Elfed, Tref Caerfyrddin (Gorllewin) a Hendygwyn-ar-Daf, ond ar y cyfan oherwydd bod codiad hefyd yn nifer y bobl yn y wardiau gwelir cwymp yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd yma.

Mae Tref Caerfyrddin yn ganolbwynt pwysig i'r Gymraeg yn ardal y Fenter, gan mae yma mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg; 5,123 o siaradwyr ar draws y tair ward. Tu allan i Gaerfyrddin, gwelir bod Sanclêr hefyd yn ganolbwynt pwysig i'r Gymraeg, gyda 1,463 o siaradwyr Cymraeg yn y dref, ymhlith y wardiau sydd â llai na 1,000 o siaradwyr Cymraeg mae Llanboidy 993, Hendygwyn-ar-Daf 933, Talacharn 619 a Llansteffan 870.
Er bod gostyngiad yn y cyfanswm sydd yn medru siarad Cymraeg, gwelir yn y tabl isod cynnydd yn y nifer sydd yn gallu deall Cymraeg ar lafar.

## Tabl 7. Nifer sydd yn Deall Cymraeg 2001 yn erbyn 2011

| Wardiau Etholaethol | Deall Cymraeg ar lafar 2001 (dros 3 oed) | | Deall Cymraeg ar lafar 2011 (dros 3 oed) | | Amrywiant | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Abergwili | 185 | 8.46% | 216 | 9.57% | 31 | 1.12% |
| Cenarth | 136 | 6.98% | 182 | 8.50% | 46 | 1.52% |
| Cynwyl Elfed | 166 | 6.21% | 237 | 8.06% | 71 | 1.86% |
| Hendygwyn | 209 | 10.46% | 236 | 10.72% | 27 | 0.27% |
| Llanboidy | 138 | 7.15% | 162 | 7.95% | 24 | 0.79% |
| Llanfihangel-ar-Arth | 138 | 5.24% | 188 | 6.80% | 50 | 1.56% |
| Llangeler | 189 | 6.06% | 273 | 8.21% | 84 | 2.14% |
| Llangynnwr | 233 | 10.51% | 296 | 12.79% | 63 | 2.27% |
| Llansteffan | 198 | 9.23% | 211 | 10.71% | 13 | 1.48% |
| Llanybydder | 166 | 6.76% | 193 | 7.21% | 27 | 0.45% |
| Sanclêr | 273 | 10.77% | 347 | 11.92% | 74 | 1.16% |
| Tref Caerfyrddin (De) | 449 | 13.04% | 534 | 14.42% | 85 | 1.38% |
| Tref Caerfyrddin (Gogledd) | 680 | 13.40% | 697 | 14.08% | 17 | 0.68% |
| Tref Caerfyrddin (Gorllewin) | 518 | 12.35% | 671 | 13.46% | 153 | 1.11% |
| Tref Talacharn | 313 | 10.94% | 340 | 12.32% | 27 | 1.37% |
| Trelech | 129 | 6.31% | 141 | 6.94% | 12 | 0.62% |
| **CYFANSWM** | **4,120** | **9.48%** | **4,924** | **10.71%** | **804** | **1.23%** |

Gwelwyd codiad yn y nifer o bobl sydd yn deall Cymraeg ar lafar ond ddim yn siarad Cymraeg ym mhob ward ar draws ardal y Fenter. Bu'r cynnydd fwyaf yn nhref Caerfyrddin (Gorllewin) gyda chynnydd uchel yn wardiau Llangeler a Llangynnwr yn ogystal.

*Cenedligrwydd / Ganwyd yng Nghymru a'r Iaith:*
Yn 2001 ganwyd 70.9% o holl drigolion ardal y Fenter yng Nghymru. Wardiau Tref Caerfyrddin (Gogledd, Gorllewin a De), Hendygwyn-ar-Daf, Sanclêr ac Abergwili oedd â'r ganran fwyaf o'r trigolion wedi eu geni yng Nghymru (dros 70% yn y saith ward).
Ar y llaw arall, wardiau Cenarth, Llangeler a Llanboidy oedd â'r ganran isaf o'u trigolion wedi eu geni yng Nghymru. Yn 2011 mae'r patrwm yr un fath, ond bod y canran sydd wedi eu geni yng Nghymru wedi gostwng ychydig i 69.21%.

## Tabl 8. Nifer a anwyd yng Nghymru 2001 yn erbyn 2011

| Wardiau Etholaethol | Nifer a Anwyd yng Nghymru | | | % Ganwyd yng Nghymru v Cyfanswm Poblogaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | Amrywiant | 2001 | 2011 | Amrywiant |
| Abergwili | 1647 | 1658 | 11 | 72.59% | 71.62% | -0.97% |
| Cenarth | 1245 | 1287 | 42 | 62.34% | 58.13% | -4.21% |
| Cynwyl Elfed | 1848 | 1991 | 143 | 67.37% | 65.97% | -1.40% |
| Hendygwyn | 1583 | 1585 | 2 | 76.58% | 69.76% | -6.82% |
| Llanboidy | 1268 | 1321 | 53 | 64.01% | 63.30% | -0.71% |
| Llanfihangel-ar-Arth | 1886 | 1843 | -43 | 69.19% | 64.64% | -4.55% |
| Llangeler | 2045 | 2031 | -14 | 63.51% | 59.26% | -4.25% |
| Llangynnwr | 1902 | 1885 | -17 | 83.35% | 79.17% | -4.18% |
| Llansteffan | 1514 | 1329 | -185 | 68.54% | 66.25% | -2.29% |
| Llanybydder | 1725 | 1848 | 123 | 67.83% | 65.84% | -1.99% |
| Sanclêr | 2249 | 2287 | 38 | 79.75% | 76.36% | -3.39% |
| Tref Caerfyrddin (De) | 2743 | 2684 | -59 | 77.79% | 70.63% | -7.16% |
| Tref Caerfyrddin (Gogledd) | 4268 | 3963 | -305 | 80.67% | 77.07% | -3.60% |
| Tref Caerfyrddin (Gorllewin) | 3447 | 3973 | 526 | 79.94% | 75.78% | -4.16% |
| Tref Talacharn | 2053 | 1922 | -131 | 69.78% | 67.41% | -2.37% |
| Trelech | 1382 | 1253 | -129 | 66.09% | 60.47% | -5.52% |
| CYFANSWM | 32,805 | 32,860 | 55 | 72.87% | 69.21% | -3.66% |

Yn 2011 wardiau Tref Caerfyrddin, Llangynnwr, Sanclêr a Thref Talacharn sydd a'r ganran uchaf wedi eu geni yng Nghymru, ond nid yw'n dilyn bod y wardiau yma hefyd gyda'r nifer uchaf sydd yn medru siarad Cymraeg. Mae wardiau Tref Caerfyrddin a chanran isel yn siarad Cymraeg, er bod dros 70% o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru. Wrth gymryd y nifer sydd yn mewnfudo i Sir Gâr i ystyriaeth, mae bron 60% o fewnfudwyr wedi symud o ardaloedd arall yng Nghymru. Mae tabl 9 yn dangos y nifer sydd yn siarad Cymraeg yn y siroedd lle mae'r rhan helaeth o fewnfudwyr wedi symud oddi wrtho.

## Tabl 9. Siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a siroedd cyfagos

| | % Siarad Cymraeg (2011) |
|---|---|
| Sir Gâr | 43.9% |
| Ceredigion | 47.3% |
| Sir Benfro | 19.2% |
| Abertawe | 11.4% |
| Castell Nedd Port Talbot | 15.3% |
| Caerdydd | 11.1% |
| Cymru | 19% |

Heblaw am Geredigion, mae’r rhan helaeth o fewnfudwyr yn symud o ardaloedd sydd â niferoedd traddodiadol isel yn siarad Cymraeg. Allwn ddehongli felly bod y nifer sydd yn mewnfudo yn Gymry di-Gymraeg.
Yn Nhabl 10, wrth gymharu sgiliau Cymraeg pobl dros 3 oed gyda’r nifer o bobl a anwyd yng Nghymru, gwelir perthynas agos rhwng y niferoedd yn wardiau Dyffryn Teifi, sydd yn awgrymu mae poblogaeth frodorol Cymraeg sydd yn medru’r Gymraeg. Wrth gymryd i ystyriaeth y nifer sydd yn siarad Cymraeg, a'r nifer sydd yn deall Cymraeg yn erbyn y nifer sydd wedi eu geni yng Nghymru, gwelwn berthynas agos iawn yn y niferoedd yn wardiau Cenarth, Llangeler, Llanfihangel-ar-Arth, Cynwyl Elfed, Abergwili, Trelech a Llanboidy. Mae hyn yn awgrymu taw diffyg hyder gan y boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru, sydd yn deall yr iaith, i ddefnyddio’r iaith.

## Tabl 10. Sgiliau Cymraeg a nifer â'u ganwyd yng Nghymru 2011


| Wardiau Etholaethol | Nifer | | | % Sgiliau Cymraeg v Poblogaeth dros 3 oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Poblogaeth a anwyd yng Nghymru | Siaradwyr Cymraeg (dros 3 oed) | Deall a Siarad Cymraeg (Dors 3 oed) | Poblogaeth a anwyd yng Nghymru | Siaradwyr Cymraeg (dros 3 oed) | Deall a Siarad Cymraeg (dros 3 oed) |
| Abergwili | 1658 | 1257 | 1473 | 71.62% | 55.69% | 65.26% |
| Cenarth | 1287 | 1045 | 1227 | 58.13% | 48.79% | 57.28% |
| Cynwyl Elfed | 1991 | 1597 | 1834 | 65.97% | 54.34% | 62.40% |
| Hendygwyn | 1585 | 933 | 1169 | 69.76% | 42.39% | 53.11% |
| Llanboidy | 1321 | 993 | 1155 | 63.30% | 48.70% | 56.65% |
| Llanfihangel-ar-Arth | 1843 | 1588 | 1776 | 64.64% | 57.45% | 64.25% |
| Llangeler | 2031 | 1812 | 2085 | 59.26% | 54.46% | 62.67% |
| Llangynnwr | 1885 | 1111 | 1407 | 79.17% | 47.99% | 60.78% |
| Llansteffan | 1329 | 870 | 1081 | 66.25% | 44.16% | 54.87% |
| Llanybydder | 1848 | 1570 | 1763 | 65.84% | 58.63% | 65.83% |
| Sanclêr | 2287 | 1463 | 1810 | 76.36% | 50.27% | 62.20% |
| Tref Caerfyrddin (De) | 2684 | 1414 | 1948 | 70.63% | 38.19% | 52.61% |
| Tref Caerfyrddin (Gogledd) | 3963 | 1853 | 2550 | 77.07% | 37.43% | 51.50% |
| Tref Caerfyrddin (Gorllewin) | 3973 | 1856 | 2527 | 75.78% | 37.24% | 50.70% |
| Tref Talacharn | 1922 | 619 | 959 | 67.41% | 22.43% | 34.75% |
| Trelech | 1253 | 1088 | 1229 | 60.47% | 53.52% | 60.45% |
| **CYFANSWM** | **32,860** | **21069** | **25,993** | **69.21%** | **45.83%** | **56.54%** |

## Trosglwyddiad Iaith:

O safbwynt trosglwyddiad iaith yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, ceid ychydig dan fil o blant rhwng 3 a 4 yn byw yn yr ardal (946), ac yr oedd 48.4% o’r rheini (458) yn gallu siarad Cymraeg. Yr oedd y ganran hon ychydig yn uwch na’r ganran sirol (45.8%), ond unwaith eto ceid gwahaniaethu mawr ar lefel y wardiau, gyda chanrannau uchel o blant 3-4 oed wardiau megis Abergwili (76.2%), Llanybydder (72.1%) a Threlech (68.6%) yn siarad Cymraeg, o gymharu gyda wardiau megis Hendy-gwyn (37.1%) a thri ward tref Caerfyrddin (cyfartaledd o 29.2%). O’r holl blant rhwng 3 a 4 oed a drigai o fewn yr ardal, yr oedd 524 ohonynt (55.4%) yn byw mewn cartref lle’r oedd o leiaf un oedolyn yn gallu siarad

Cymraeg (unai cartrefi cwpl lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, cartrefi rhiant unigol lle gallai'r un oedolyn hwnnw siarad Cymraeg, neu gartrefi 'cymysg' eu hiaith – sef cartrefi cwpl lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, tra bod yr oedolyn neu oedolion eraill ar yr aelwyd yn ddi-Gymraeg). O ran y gweddill, trigai 422 (44.6%) o blant rhwng 3 a 4 oed yr ardal ar aelwydydd lle nad oedd un oedolyn a allai siarad Cymraeg. Golyga'r ystadegau hyn bod gan ychydig dros hanner aelwydydd ardal Menter Gorllewin Sir Gâr y potensial i drosglwyddo'r Gymraeg yn naturiol rhwng y ddwy genhedlaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod y gyfradd drosglwyddo yn disgyn hyd yn oed islaw'r potensial. Er bod 524 o blant 3 i 4 oed yr ardal yn byw ar aelwydydd lle y gallai o leiaf un oedolyn siarad Cymraeg, dim ond 353 o'r plant hynny a allai siarad Cymraeg (67.4%). Trigai mwyafrif (53.0%) o'r plant rhwng 3 a 4 oed a allai siarad Cymraeg o fewn y grŵp potensial hwn mewn cartrefi cwpl lle'r oedd dau oedolyn yn siarad Cymraeg, trigai 13.3% ohonynt mewn cartrefi rhiant unigol lle'r oedd un oedolyn yn siarad Cymraeg, a 33.7% mewn cartrefi cwpl lle mae un oedolyn yn unig a allai siarad Cymraeg. Noder bod y patrwm aelwydydd hwn yn arwyddocaol wahanol i'r patrwm a welwyd ddegawd ynghynt. Ymddengys bod llai a llai o blant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg yn byw ar 9 aelwydydd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg (2011 = 53.0%, 2001 = 58.2%), tra bod mwyfwy yn cael eu magu ar aelwydydd cymysg eu hiaith lle mai un rhiant yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg (2011 = 33.7%, 2001 = 29.8%). Er ei bod yn gadarnhaol fod cynifer o rieni ar aelwydydd cymysg eu hiaith yn dewis magu eu plant yn Gymraeg, dengys patrymau'r gorffennol yn Sir Gaerfyrddin a rhannau eraill o Gymru fod cyfradd trosglwyddiad iaith yn uwch ar aelwydydd lle bydd y ddau riant yn siarad Cymraeg â'r plant na phan mai un rhiant yn unig a all siarad Cymraeg (ac ymhellach na hynny, dengys y patrymau hyn fod y cyfradd trosglwyddo yn is eto lle mai'r tad fydd yr unig riant a all siarad Cymraeg).

## Tabl 11. Trosglwyddiad iaith yn y cartref, ardal Menter Gorllewin Sir Gâr 2011: Niferoedd a chanrannau plant 3-4 sy'n siarad Cymraeg



Yn ôl ffigurau 2011 ar gyfer ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, siaredid Cymraeg gan 87.0% o'r plant rhwng 3 a 4 oed a drigai mewn cartrefi cwpl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg (a oedd ychydig yn uwch na'r ganran sirol o 85.3%, ond yn ostyngiad arwyddocaol oddi ar 2001, sef 92.1% – gostyngiad o -5.1%), siaredid Cymraeg gan 58.8% o'r plant a drigai mewn cartrefi rhiant unigol gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg (braidd dim newid oddi ar 2001, sef 58.9%), a 52.0% o'r rheini a drigai mewn cartrefi cwpl lle siaredid Cymraeg gan un oedolyn yn unig (cynnydd bychan oddi ar 2001, sef 48.4% – cynnydd o +3.6%). Fel y Dengys ffigurau 2011 mai 55.4% yn unig o aelwydydd ardal Menter Gorllewin Sir Gâr a oedd yn cynnwys un neu ragor o oedolion a allai siarad Cymraeg.1 O'r aelwydydd hynny, yr oedd 22.7% yn gartrefi cwpl lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, 8.5% yn gartrefi rhiant unigol lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, 24.2% o aelwydydd yr ardal yn rhai 'cymysg' eu hiaith (h.y. lle ceid un oedolyn yn unig yn siarad Cymraeg, tra bod y llall / lleill yn ddi-Gymraeg), tra bod 44.6% o'r aelwydydd yn ddi-Gymraeg (h.y. yr oedolion yn ddi-Gymraeg, ac nid o reidrwydd bod y plant yn ddi-Gymraeg).

O gyfuno'r cartrefi cwpl lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg a'r cartrefi rhiant unigol lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg – a disgrifio'r rhain yn fras fel 'aelwydydd Cymraeg eu hiaith' – noder mai un ward yn unig ledled yr ardal oedd â 60% neu ragor o'r aelwydydd yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith, sef Llanybydder (63.9%). Fodd bynnag, heblaw am Llanfihangel-ar-arth (50.0%), roedd llai na hanner aelwydydd holl wardiau eraill yr ardal yn aelwydydd 'Cymraeg eu hiaith'. O edrych ar ddosbarthiad yr aelwydydd di-Gymraeg, mae'n amlwg fod mwyafrif aelwydydd wardiau'r arfordir yn ddi-Gymraeg (Llansteffan: 62.9%, a Threflan Talacharn: 55.8%), megis hefyd ward Hendy-gwyn (62.9%) a ward de tref Caerfyrddin (69.2%). Ychydig yn fwy annisgwyl oedd canfod bod 56.1% o aelwydydd ward Cenarth yn Nyffryn Teifi hefyd yn aelwydydd lle nad oedd un rhiant a all siarad Cymraeg.

Sylwir ar batrymau diddorol iawn o edrych ar ganrannau'r plant 3-4 oed ar draws yr ardal a gofnodwyd fel rhai a allai siarad Cymraeg, pan edrychir hefyd ar gyfansoddiad ieithyddol y teulu. Ar gyfartaledd yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr, siaredid Cymraeg gan 79.3% o blant 3-4 oed a oedd yn byw ar yr hyn a ddisgrifiwyd yn fras uchod fel 'aelwydydd Cymraeg eu hiaith' (gostyngiad o'r hyn ydoedd yn 2001, sef 84.0%). O edrych ar raddfeydd trosglwyddiad iaith ar draws yr ardal o fewn cartrefi cwpl lle ceid dau oedolyn yn siarad Cymraeg, gwelir bod y mwyafrif o wardiau wedi cofnodi cyfradd drosglwyddo o 75% neu'n uwch – a hynny'n weddol gyson ar draws yr ardal, er bod y gyfradd yn tueddu i fod ychydig yn is ar gyfartaledd yn wardiau tref Caerfyrddin (yn enwedig ward deheuol y dref, lle mai hanner y plant 3-4 oed yn unig ar yr aelwydydd Cymraeg hynny a allai siarad Cymraeg). Un ward yn unig o blith 16 ward yr ardal a ddychwelodd cyfradd o 100% (sef Trelech) – newid sylweddol iawn oddi ar 2001 pan ddychwelodd 11 o'r wardiau gyfradd o 100%. Felly er bod bron 300 o blant 3-4 oed yr ardal yn byw mewn cartrefi lle y gallai'r holl oedolion siarad Cymraeg, cafodd un o bob pump ohonynt eu magu yn Saesneg.

Mae'n anodd gwybod beth sy'n gyfrifol am hyn – a ph'un ai hunanfodlonrwydd a diffyg sylweddoliad ymhlith y rhieni hyn fod y Gymraeg ar drai a bod ganddyn nhw rôl i'w chwarae yn cynnal yr iaith trwy fagu eu plant yn 1 Seilir y canrannau hyn a'r gweddill sy'n dilyn yn trafod trosglwyddiad iaith ar aelwydydd lle trigai plant 3 i 4 oed ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011. 11 Gymraeg, neu a ydyw o ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a bwriadol i ollwng yr iaith a magu eu plant yn Saesneg. Rhaid, wrth gwrs, fod yn wyliadwrus o'r canrannau gan y'u seiliwyd ar niferoedd mor fychan. Yr hyn sydd yn sicr, fodd bynnag, yw bod y canrannau hyn, er eu seilio ar niferoedd bychain, yn rhoi darlun i ni o batrymau tueddiadau rhieni ar draws yr ardal ac mae'n amlwg ei bod yn anos i rieni Cymraeg eu hiaith fagu eu plant yn Gymraeg pan bod canrannau siaradwyr Cymraeg y gymuned o'u cwmpas yn isel iawn. Ceid patrymau digon tebyg i'r aelwydydd cymysg eu hiaith hefyd – er bod y gyfradd drosglwyddo cryn dipyn yn is pan mai un rhiant yn unig a all siarad Cymraeg. Ar gyfartaledd, siaredid Cymraeg gan ychydig dros hanner (52.0%) plant 3-4 oed yr ardal a oedd yn byw ar aelwydydd cwpl lle'r oedd un o'r oedolion yn siarad Cymraeg. (Noder bod hynny ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn 2001, sef 48.4% – cynnydd o +3.6% – prawf o bosib o ddylanwad ymgyrchoedd megis TWF i hyrwyddo manteision

dwyieithrwydd ymhlith rhieni newydd. Fodd bynnag, o ystyried y nifer nid ansylweddol o rieni Cymraeg eu hiaith sydd yn dewis magu eu plant yn Saesneg, ymddengys na ddylai TWF gymryd yn ganiataol mai rhieni ar aelwydydd cymysg eu hiaith, neu rieni di-Gymraeg sydd angen eu targedu yn yr ardal hwn – yn enwedig tref Caerfyrddin ei hun). Gwelwn felly fod y gyfradd drosglwyddo yn disgyn o wyth ymhob deg i bump ymhob deg pan mai un rhiant yn hytrach na'r ddau riant a all siarad Cymraeg. Ymddengys bod y trosglwyddiad iaith yn llawer llai tebygol o ddigwydd ar aelwydydd cymysg mewn wardiau trefol, megis Caerfyrddin a San Clêr yn enwedig, a wardiau â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg yn byw o fewn y gymuned, megis y rhai arfordirol, yn enwedig Llansteffan – er bod rhai wardiau gwledig hefyd lle'r oedd y Gymraeg ar dir cadarnach yn dangos arwyddion pryderus o ddiffyg trosglwyddiad o fewn aelwydydd cymysg eu hiaith, megis Llanfihangel-ar-arth (46.7%) a Threlech (42.9%). Anos gwrthsefyll dylanwadau Saesneg pan mai un rhiant yn unig a all siarad Cymraeg, sydd yn golygu fod fwy o ddibyniaeth ar y gyfundrefn addysg i gefnogi ac ategu'r Gymraeg a ddysgir ar yr aelwyd.

# Addysg

*Ysgolion Cynradd:*

Mae yna 32 ysgol gynradd yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr a'r rhan fwyaf yn ysgolion cyfrwng Cymraeg;

Abergwili. Bancyfelin. Bro Brynach. Brynsaron. Cae'r Felin. Carreg Hirfaen. Cynwyl Elfed. Griffith Jones (Dwy ffrwd ac yn parhau ar y continwwm iaith). Llys Hywel (Dwy ffrwd ac yn parhau ar y continwwm iaith). Llangain. Llangynnwr (Dwy ffrwd ac yn parhau ar y continwwm iaith). Llanllwni. Llanmiloe (Saesneg). Llanpumsaint. Llansteffan. Llanybydder. Meidrim. Model (Saesneg). Myrddin. Penboyr. Peniel. Parc Waun-Dew (Saesneg). St Mary's (Saesneg). Talacharn (Saesneg). Tre-Ioan (Saesneg). Tremoilet (Saesneg). Y Dderwen. Y Ddwylan (Dwy ffrwd ac yn parhau ar y continwwm iaith).

*Ysgolion Uwchradd:*

Mae yna bedair ysgol uwchradd yn ardal y Fenter;

Ysgol Bro Myrddin. Ysgol Dyffryn Taf (Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg). Ysgol Emlyn (Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg). Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg).

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw'r unig ysgol Uwchradd Gymraeg yn ardal y Fenter, gyda dros 100% o bynciau yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Saesneg yw prif iaith y tair ysgol arall.

*Addysg Bellach:*

Lleolir campws Caerfyrddin o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin (lleolir y campws arall yn Llanbedr Pont Steffan), sydd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch.

Yn y flwyddyn academaidd 2018/19 roedd 22% o holl myfyrwyr y Brifysgol Y Drindod Dewi Sant sef 11,135, yn cael rhywfaint o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. O holl brifysgolion Cymru, dyma'r ganran uchaf (ar gyfer 5 credid neu mwy). Mae dros 47% o'r ddarpariaeth yn cael yn cynnig drwy Addysg a Dyniaethau

Gweler isod yn nhabl 12 niferoedd yng Ngholeg Sir Gâr yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth wrth gofio bod dau gampws Coleg Sir Gâr o fewn ardal y Fenter, sef Pibwrlwyd a Ffynnon Job/Jobs Well. Yn ychwanegol i'r dwy campws yma mae Campws y Graig, Campws Rhydaman a Champws Gelli Aur.

## Tabl 12: Niferoedd Coleg Sir Gâr yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth:

| Iaith y rhaglen | Coleg Sir Gâr |
|---|---|
| Saesneg yn unig | 13,490 |
| Ychydig o ddysgu trwy Gymraeg Swm bach o gyfrwng Cymraeg | 6,970 |
| Swm sylweddol o ddysgu trwy gyfrwng Cymraeg | 670 |
| Dwyieithog | 115 |
| Cymraeg yn unig | 45 |
| Cyfanswm | 21,285 |

*Mudiad Meithrin:*
Mae'r lleoliadau canlynol yn aelodau o Mudiad Meithrin ac yn darparu gofal plant / addysg blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i blant o dan oedran ysgol. Mae nifer o Gylchoedd Meithrin a Grwpiau Ti a Fi yn cyfarfod ar draws ardal y Fenter;
Abergwili. Alltcafan. Bancyfelin. Canolfan Deulu Llanybydder. Drefach Felindre. Eco Tywi (cylch newydd ers 2019). Hywel Dda. Llangain. Llangynnwr. Llanllawddog. Llanllwni. Llansteffan. Llanybydder. Meidrim. Myrddin. Pencader. Sanclêr. Teifi. Trelech. Y Cam Cynta'.
Yn ogystal, lleolir cylch Meithrin Bro Teifi, sydd wedi eu lleoli dros y ffin yng Ngheredigion, ond yn cynnig gwasanaeth i drigolion Sir Gâr.

## Tabl 13. Cylchoedd Ardal y Fenter a chyfanswm nifer plant ar y gofrestr a iaith y rheini

| Cylch 2018-2019 | Cyfanswm Nifer Plant ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn | Iaith y Fam/Partner 1 - Nifer | Iaith y Fam/Partner 1 (%) | Iaith y Partner 2/Tad - Nifer | Iaith y Partner 2/Tad (%) | Iaith y Cartref - Nifer | Iaith y Cartref (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alltcafan | 24 | 10 | 41.7 | 10 | 41.7 | 5 | 20.8 |
| Drefach Felindre | 36 | 7 | 19.4 | 6 | 16.7 | 4 | 11.1 |
| Llanybydder | 11 | 4 | 36.4 | 6 | 54.5 | 3 | 27.3 |
| Abergwili | 18 | 3 | 16.7 | 5 | 27.8 | 2 | 11.1 |
| Bancyfelin | 25 | 14 | 56.0 | 15 | 60.0 | 13 | 52.0 |
| Bro Elfed | 11 | 8 | 72.7 | 8 | 72.7 | 8 | 72.7 |
| Bronwydd | 33 | 25 | 75.8 | 23 | 69.7 | 22 | 66.7 |
| Myrddin | 40 | 33 | 82.5 | 29 | 72.5 | 28 | 70.0 |
| Llanllwni | 13 | 9 | 69.2 | 4 | 30.8 | 5 | 38.5 |
| Pencader | 28 | 12 | 42.9 | 13 | 46.4 | 8 | 28.6 |
| Llangynnwr | 52 | 24 | 46.2 | 21 | 40.4 | 18 | 34.6 |
| San Clêr | 37 | 15 | 40.5 | 12 | 32.4 | 7 | 18.9 |
| Trelech | 9 | 6 | 66.7 | 5 | 55.6 | 6 | 66.7 |

*Cymraeg i blant:*
Mae Cymraeg i Blant yn gynllun sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i phlant ac i ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg. Rheolir y cynllun gan Mudiad Meithrin sydd yn darparu gofal plant ac addysg Gymraeg cyn ysgol yn y meithrinfeydd dydd a chylchoedd meithrin.

## Tabl 14. Lleoliadau sesiynau Cymraeg i Blant gyda niferoedd y grwpiau a mynychwyr

| 2019-2020 | Tŷ Ni | Grŵp Plant Dewi | Yr Aelwyd, Tregynwr | Bowlio Xcel | Parc Caerfyrddin | Treioan | Llyfrgell Caerfyrddin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill G | 4 | 4 | 2 | | | | |
| Ebrill M | 28 | 16 | 41 | | | | |
| Mai G | 8 | 1 | 2 | 1 | | | |
| Mai M | 73 | 8 | 23 | 20 | | | 3 |
| Mehefin G | 7 | 3 | 4 | 1 | | | 39 |
| Mehefin M | 54 | 19 | 54 | 14 | | | |
| Gorffennaf G | 6 | | 3 | 1 | | | 2 |
| Gorffennaf M | 55 | | 37 | 19 | | | 29 |
| Awst G | | | | | | | |
| Awst M | | | | | | | |
| Medi G | 2 | | 4 | 1 | 1 | | 2 |
| Medi M | 31 | | 73 | 30 | 4 | | 35 |
| Hydref G | 6 | | 6 | 1 | | | 1 |
| Hydref M | 44 | | 44 | 8 | | | 15 |
| Tachwedd G | 8 | | 8 | 1 | | 1 | |
| Tachwedd M | 57 | | 62 | 15 | | 13 | |
| Rhagfyr G | 4 | | 2 | 1 | | 1 | |
| Rhagfyr M | 26 | | 11 | 9 | | 7 | |
| Ionawr G | 6 | 2 | 6 | 1 | | 1 | |
| Ionawr M | 43 | 20 | 51 | 15 | | 8 | |
| Chwefror G | 6 | 2 | 6 | 1 | | 1 | |
| Chwefror M | 38 | 15 | 57 | 17 | | 12 | |
| Mawrth G | 4 | 2 | 4 | 1 | | 1 | |
| Mawrth M | 15 | 23 | 32 | 10 | | 7 | |

G = Nifer y grwpiau
M = Nifer y mynychwyr

## Cymraeg i Oedolion:

Mae Cymraeg i Oedolion Sir Gâr yn cynnig gwersi Cymraeg ar draws ardal Sir Gâr. Mae’r gwersi yn cael eu darparu yn amrywiol yn ystod y dydd a gyda'r nos, gyda'r mwyafrif yn cael eu cynnal mewn dosbarthiadau rhithiol ar hyn o bryd. Mae'r cyrsiau yn cael eu cynnal gan rwydwaith o ddarparwyr cyrsiau ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg – o’r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.

# Iechyd a Lles

Mae'r tablau isod (tabl 1 a 2) yn dangos iechyd cyffredinol a phroblem iechyd hir dymor neu anabledd yn ôl y gallu i siarad Cymraeg a methu siarad Cymraeg allan o 177,642 o drigolion yn Sir Gâr.

## Tabl 15: Iechyd cyffredinol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran

(Swyddfa Ystadegau Gwladol, General Health by Ability to Speak Welsh)

| | Pob categori | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori: Iechyd cyffredinol | 177,642 | 78,048 | 99,594 |
| Iechyd da iawn neu dda | 132,289 | 59,922 | 73,063 |
| Iechyd teg | 29,882 | 12,922 | 16,960 |
| Iechyd gwael neu wael iawn | 15,471 | 5,900 | 9,571 |

## Tabl 16: Problem iechyd hir dymor neu anabledd yn ôl y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran

(Swyddfa Ystadegau Gwladol, General Health by Ability to Speak Welsh)

| | Pob categori | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori: Problem iechyd neu anabledd hirdymor | 177,642 | 78,048 | 99,594 |
| Gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig (llawer) | 24,853 | 10.603 | 14,250 |
| Gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig (bach) | 21,696 | 9,185 | 12,511 |
| Gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig (dim) | 131,093 | 58,260 | 72,833 |

# Y gweithle a'r economi

## Economi Leol:

Y sector gyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal, gyda 8.18% yn gyflogedig mewn Gweinyddiaeth Cyhoeddus, 9.85% yn y sector Addysg a 15.88% yn y sector Iechyd a Gofal / Gwasanaethau Cymdeithasol.

Lleolir Prif Swyddfeydd y Cyngor Sir yng Nghaerfyrddin, gyda nifer o swyddfeydd adrannau penodol o'r awdurdod yn y dref a'r cyffiniau. Mae Ysbyty Glangwili sydd wedi ei leoli ar gyffiniau tref Caerfyrddin yn cyflogi llawer yn y sector Iechyd a Gofal. Gwelwn leoliad y gwasanaethau yma yn creu effaith ar broffil economi lleol y wardiau, gyda wardiau Tref Caerfyrddin a'r Cyffiniau (Tref Caerfyrddin; Gogledd; De; Gorllewin, Llangynnwr ac Abergwili) â chanran uchel o'r boblogaeth yn gyflogedig yn y sectorau yma.

Caerfyrddin yw prif ganolfan y sector mân-werthu yn ardal y Fenter. Mae'r nifer fwyaf sydd wedi eu cyflogi yn y sector yma yn byw yn wardiau Caerfyrddin a'r cyffiniau.

Fe wnaeth Canolfan S4C Yr Egin ymgartrefi yng Nghaerfyrddin yn 2018 gyda'r bwriad o fanteisio i'r eithaf ar fudd economaidd a chymdeithasol. Bydd effaith economaidd Yr Egin yn sylweddol, gan gyfrannu mwy na £7m i'r economi leol bob blwyddyn. (Gwefan Shaping Your Word).

Heblaw am dref Caerfyrddin a'r cyffiniau, mae'r ardal yn un wledig; amaeth yw prif ddefnydd y tir. Ym mhob ward heblaw am wardiau Caerfyrddin a Llangynnwr, mae'r nifer sydd yn gyflogedig yn y sector Amaeth llawer yn uwch na chyfartaledd y sir. 4.14% o boblogaeth Sir Gâr sydd yn gyflogedig yn y sector Amaeth, ond yn yr ardaloedd gwledig o ardal y Fenter, gwelwn 21.88% yn gyflogedig yn y sector Amaeth yn Nhrelech, 17.04% yn Llanboidy a 13% yn ward Cynwyl Elfed. Mae pwysigrwydd amaeth i'r ardal yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod marchnadoedd anifeiliaid prysur yn y pentrefi a'r trefydd mwyaf sef; Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn, Hendygwyn-ar-Daf, Sanclêr, a Llanybydder. Yn ogystal, ar draws ardal y Fenter mae sawl cwmni a ffatri cynhyrchu a phrosesi bwyd, sy'n cyflogi nifer sylweddol, ac yn creu clwstwr o bobl sydd yn gyflogedig yn y sector e.e. ffatri laeth yng Nghastell Newydd Emlyn a lladd-dy yn Llanybydder.

## Tabl 17: Y gallu i siarad Cymraeg gan ddiwydiant

(Swyddfa Ystadegau Gwladol, Industry by Ability to Speak Welsh)

Gweler isod (tabl 17) ystadegau yn dangos y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg a methu siarad Cymraeg mewn 7 diwydiant gyda'r rhan fwyaf yn gallu siarad Cymraeg yn niwydiant Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd a'r lleiaf yn gallu siarad Cymraeg yn niwydiant Trafnidiaeth a chyfathrebu.

| | Pob categori | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori | 81,402 | 33,765 | 47,637 |
| Amaethyddiaeth, ynni a dŵr | 4,863 | 2,761 | 2,102 |
| Gweithgynhyrchu | 7,067 | 2,322 | 4,745 |
| Adeiladu | 7,272 | 3,239 | 4,033 |
| Dosbarthu, gwestai a bwytai | 17,837 | 6,496 | 11,341 |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 4,486 | 1,756 | 2,730 |
| Gweithgareddau Ariannol, Ystad Go Iawn, Proffesiynol a Gweinyddol | 8,070 | 2,972 | 5,098 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 28,424 | 12,905 | 15,519 |
| Arall | 3,383 | 1,314 | 2,069 |

## Tabl 18: Y gallu i siarad Cymraeg drwy alwedigaeth

( Swyddfa Ystadegau Gwladol, Occupation by Ability to Speak Welsh)

Mae'r tabl isod (tabl 18) yn dangos faint sydd yn gallu siarad Cymraeg drwy alwedigaeth gyda chyfanswm o 33,765 yn medru siarad Cymraeg ar draws yr holl gategorïau a 46,637 yn methu siarad Cymraeg ar draws yr holl gategorïau.

| | Pob categori | Gallu siarad Cymraeg | Methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori: Galwedigaeth | 81,402 | 33,765 | 47,637 |
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 7,439 | 2,591 | 4,848 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 12,255 | 5,671 | 6,584 |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol | 7,878 | 3,218 | 4,660 |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 8,488 | 3,554 | 4,935 |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 13,499 | 6,409 | 7,090 |
| Galwedigaethau gofalgar, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill | 9,005 | 3,888 | 5,117 |
| Gwerthiannau a galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid | 7,054 | 2,571 | 4,483 |
| Gweithredwyr prosesau, peiriannau a pheiriannau | 6,594 | 2,560 | 4,034 |
| Galwedigaethau elfennol | 9,190 | 3,304 | 5,886 |

## Tabl 19: Y lefel uchaf o gymhwyster yn ôl sgiliau Iaith Gymraeg

( Swyddfa Ystadegau Gwladol, Highest Level of Qualification by Welsh Language Skills)

Gweler isod (tabl 19) y lefelau o gymhwyster yn ôl sgiliau o fewn yr iaith Gymraeg mewn 8 lefel ar gyfer 150,763 o bobl Sir Gâr ar draws ystod o sgiliau. Gweler fod dim sgiliau yn y Gymraeg gan 66,125 o bobl a bod sgiliau yn amrywio ar gyfer y 84,638 sydd yn weddill.

| | Pob categori: Sgiliau Cymraeg | Dim sgiliau yn y Gymraeg | Gallu deall Cymraeg llafar yn unig | Gallu siarad Cymraeg: Y cyfan | Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Gallu siarad a chyfuniadau eraill o sgiliau Cymraeg | Cyfuniadau arall o sgiliau yn y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob categori: y lefel uchaf o gymhwyster | 150,763 | 66,125 | 18,336 | 62,534 | 46,357 | 16,177 | 3,768 |
| Dim cymwysterau | 40,334 | 18,119 | 4,569 | 17,055 | 11,011 | 6,044 | 591 |
| Cymwysterau lefel 1 | 19,683 | 9.202 | 2,589 | 7,361 | 5,536 | 1,825 | 531 |
| Cymwysterau lefel 2 | 24,748 | 10,344 | 3,165 | 10,436 | 8,281 | 2,155 | 803 |
| Prentisiaeth | 6,514 | 2,772 | 886 | 2,727 | 1,881 | 846 | 129 |
| Cymwysterau lefel 3 | 16,832 | 7,139 | 2,056 | 7,161 | 5,694 | 1,467 | 476 |
| Cymwysterau lefel 4 | 36,036 | 14,846 | 4,425 | 15,631 | 12,541 | 3,090 | 1,134 |
| Cymwysterau eraill | 6,616 | 3,703 | 646 | 2,163 | 1,413 | 750 | 104 |

## Tabl 20: Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yn Sir Gâr a blwyddyn (£)

(Stats Cymru, Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£))

Mae'r data isod (tabl 20) yn dangos enillion cyfartalog fesul wythnos ac awr mewn punnoedd yn awdurdodau lleol Cymru a chyfuniadau ohonynt bob mis Ebrill yn y blynyddoedd a ddangosir. Mae'r data'n ymwneud â chyflogedigion amser llawn ar gyfraddau oedolion na effeithiwyd ar eu tâl yng nghyfnod yr arolwg gan absenoldeb. Mae ardal yn golygu lleoliad y gweithle, nid cartref y gweithiwr.

| Blwyddyn | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 451.30 | 452.50 | 470.50 | 473.90 | 478.60 | 493.70 | 498.30 | 509.00 | 535.00 |
| Sir Gaerfyrddin | 414.20 | 418.40 | 459.80 | 462.30 | 461.90 | 458.90 | 510.00 | 498.00 | 519.40 |

## Gwasanaethau:

Caerfyrddin yw prif ganolbwynt gwasanaethau yn ardal y Fenter - gyda swyddfeydd y Cyngor Sir, Ysbyty Glangwili, Gwasanaethau Iechyd, Pencadlys Heddlu Dyfed Powys, Y Frigâd Dân wedi'u lleoli yna yn ogystal â bod yn brif ganolfan mân-werthu'r ardal.
Ceir gwasanaethau yn nhrefi penodol yr ardal hefyd, sy'n gwasanaethu'r boblogaeth gyfagos. Yn nhrefi Castell Newydd Emlyn a Sanclêr ceir ysgolion cynradd, heddlu, brigâd dân, gwasanaethau iechyd (syrjeri doctoriaid, optegydd, deintydd a fferyllfa), gwasanaethau ariannol a siopau.

## Brexit:

Yn 2018 lansiodd Lesley Griffiths AC yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gweledig, bapur ymgynghorol ar ddyfodol y cymorthdaliadau a gynigir i'r sector amaeth a choedwigaeth yng Nghymru. Dyma linc i safbwynt Gareth Ioan sef 'Brexit a'n Tir a'r Gymraeg' sy'n trafod effaith posib Brexit ar y gweithle a'r Gymraeg ac effaith posibl ar amaeth a phwysigrwydd y sector i'r iaith Gymraeg.
Brexit_an_Tir_ar_Gymraeg_Papur_safbwynt.pdf (iaith.cymru)

## Amddifadedd:

Dadansoddiad Awdurdod Lleol (llyw.cymru)
Dadansoddiad Awdurdod Lleol (llyw.cymru)
Ardaloedd yng Nghaerfyrddin (Gogledd 2) (Ardal Park Hall, Belvedere Avenue), Llangeler, Cenarth a Llanybydder sydd a'r Mynegiad Amddifadedd Lluosog isaf yn ardal y Fenter, ac mae'r ardaloedd yma yn y 30% isaf ar draws Cymru. Mae'r ardaloedd yma hefyd gyda'r mynegai isaf ar draws yr ardal am incwm, cyflogaeth, iechyd ag addysg.
Ar y llaw arall, gwelwn mai ardaloedd Tref Caerfyrddin (Gogledd), Abergwili, Cynwyl Elfed, Sanclêr a Llangynnwr sydd ar fynegiad Amddifadedd Lluosog uchaf yn yr ardal, ac yn y 30% uchaf ar draws Cymru. Gwelwn fod ardal Caerfyrddin (Gogledd) (Ardal Heol Bronwydd) yn y 10% uchaf ar draws Cymru. Mae'r ardaloedd yma hefyd gyda'r mynegai uchaf am incwm, cyflogaeth, iechyd ac addysg.
Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mae'r rhan helaeth o'r ardal yn ddifreintiedig yn ei mynediad i wasanaethau, ac yn y 40% isaf ar draws Cymru. Mae'r ardaloedd sydd â mynediad i wasanaethau isaf yn ardaloedd gwledig y Fenter sef Llanboidy, Cynwyl Elfed a Threlech ac yn y 5% isaf ar draws Cymru.

# Tai ac Aelwydydd

Yn y tabl isod (tabl 21) mae ffigyrau pris tŷ cyfartalog yng Nghymru ac yn Sir Gâr gyda Sir Gâr yn llai na cyfartaledd Cymru o 2011 hyd at 2019, gyda blwch o £5,500 yn 2011 a bwlch o £20,000 erbyn 2019.

## Tabl 21: Pris tŷ cyfartalog Cymru a Sir Gaerfyrddin, o flwyddyn a ddaeth i ben rhwng mis Medi 2011 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019 (£)

| | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2011 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2012 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2013 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2014 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2015 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2016 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2017 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2018 | Y flwyddyn yn diweddu Medi 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 130,500 | 133,000 | 133,500 | 138,000 | 142,750 | 148,000 | 150,000 | 156,000 | 160,000 |
| Sir Gâr | 125,000 | 125,000 | 120,000 | 125,000 | 129,995 | 134,995 | 135,000 | 136,000 | 140,000 |

O gyfrifiad 2011 mae 78,829 o gartrefi yn Sir Gâr ac mae 5% ohonynt yn ail gartrefi neu dai gwag taladwy. Allan o'r 78,829 mae 71% wedi cael eu prynu ac allan o'r 71% hynny mae morgais gan 42%

Mae'r ddau dabl isod (tabl 22 a 23) yn edrych ar ddeiliadaeth wrth edrych ar sgiliau Iaith Cymraeg a'r gallu i siarad Cymraeg ar gyfer 78,829 o drigolion Sir Gâr wrth edrych ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg a dim sgiliau yn y Gymraeg.

## Tabl 22: Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl deiliadaeth - Personau Cyfeirio'r Cartref

( Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tenure by Welsh Language Skills)

| | Pob categori: Sgiliau Cymraeg | Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg | Dim sgiliau yn y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori: Daliadaeth | 78,829 | 43,829 | 35,010 |
| Perchnogaeth neu berchnogaeth a rennir yn llawn | 56,648 | 33,170 | 23,334 |
| Perchnogaeth: berchen yn llwyr | 32,648 | 20,083 | 12,565 |
| Perchnogaeth: perchen gyda morgais neu fenthyciad neu berchnogaeth a rennir | 23,856 | 13,087 | 10,769 |
| Rhent neu rent byw am ddim yn llawn | 22,325 | 10,649 | 11,676 |
| Rhent: rhent cymdeithasol | 11,672 | 5,939 | 5,733 |
| Rhent: rhent preifat neu rhent byw am ddim | 10,653 | 4,710 | 5,943 |

## Tabl 23: Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl deiliadaeth - Personau Cyfeirio'r Cartref

(Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tenure by Welsh Language Skills)

| | Pob categori: Y gallu i siarad Cymraeg | Yn gallu siarad Cymraeg | Yn methu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Pob categori: Daliadaeth | 78,829 | 32,043 | 46,786 |
| Perchnogaeth neu berchnogaeth a rennir yn llawn | 56,504 | 24,785 | 31,719 |
| Perchnogaeth: berchen yn llwyr | 32,648 | 15,819 | 16,829 |
| Perchnogaeth: perchen gyda morgais neu fenthyciad neu berchnogaeth a rennir | 23,856 | 8,966 | 14,890 |
| Rhent neu rent byw am ddim yn llawn | 22,325 | 7,258 | 15,067 |
| Rhent: rhent cymdeithasol | 11,672 | 4,046 | 7,626 |
| Rhent: rhent preifat neu rhent byw am ddim | 10,653 | 3,212 | 7,441 |

## Fforddiadwyedd:

Cymhareb pris canolrif tai i enillion gros canolrif blynyddol yng Nghymru yn 2019 = 5.74 i gymharu â 5.15 yn Sir Gaerfyrddin.
Trwy rannu pris y tŷ am ardal benodol yn ôl ei henillion, rydym yn cynhyrchu cymhareb sy'n ddangosydd fforddiadwyedd cymharol. Mae cymhareb uwch yn dangos ei bod yn llai fforddiadwy ar gyfartaledd i breswylydd brynu tŷ yn ardal ei awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb, mae cymhareb is yn dangos fforddiadwyedd uwch mewn awdurdod lleol. Er bod llawer mwy o ffactorau sy'n dylanwadu ar fforddiadwyedd, mae'r gymhareb syml yn rhoi trosolwg o wahaniaethau daearyddol ledled Cymru. Wrth gymharu Sir Gaerfyrddin (5.15) gyda Cheredigion (7.46) a Sir Benfro (7.09) mae'n ymddangos bod tai yn fwy fforddiadwy ar gyfartaledd i'r preswylwyr.

# Gweithgareddau Cymunedol

Mae'r Fenter wedi'i lleoli mewn ardal weithgar o ran digwyddiadau cymunedol, gydag amrywiaeth o weithgareddau a nifer ohonynt yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain wedi eu lleoli ar draws ardal y Fenter ac yn cynnwys; clybiau darllen, clybiau chwaraeon, corau, capeli ag eglwysi, carnifalau, gwyliau amrywiol, sesiynau cerdd, clybiau garddio, clybiau gwnïo/gweu, ysgol farddol, hoelion wyth, clybiau henoed, sesiynau amrywiol i ddysgwyr, clybiau cinio, ac ysgolion dawns. Anfonodd y fenter holiadur allan fel rhan o waith Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu darlun o sut mae'r Gymraeg wedi'i heffeithio yn ystod Pandemig Covid-19 at 110 o grwpiau o fewn yr ardal ond rydym yn ymwybodol bod mwy o grwpiau yn cwrdd er nad oes cyswllt/mynediad gyda'r Fenter â hwy.

## Menter Gorllewin Sir Gâr:

Yn ystod Ebrill 2019 - Mawrth 2020 fe wnaeth dros 19,775 fynychu ac elwa o weithgareddau i deuluoedd. Defnyddiodd 8,910 o bobl ifanc eu Cymraeg trwy fynychu neu gymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau'r Fenter dros y flwyddyn. Trwy ein gwaith ym maes cymunedol, fe wnaeth dros 13,336 o drigolion cael y cyfle i fynychu a defnyddio'u Cymraeg mewn degau o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol. Rydym yn amcangyfrif bod 30,000 o bobl wedi cael cyfleoedd ychwanegol i ddarllen Cymraeg ac i weld newyddion am ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg drwy ein gwaith. Mae dros 30 o fusnesau wedi cael y cyfle i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg trwy weithio gyda'n swyddog busnes, boed hynny ar arwyddion, bwydlenni neu rannau o wefannau ac ati yn cael eu cyfieithu. Yn ogystal fe wnaethom drafod a rhannu gwybodaeth gyda 52 o fusnesau am werth yr iaith. Darparwyd sesiynau digidol i gefnogi pobl ddi-waith mewn deunaw lleoliad ar draws saith sir. Cefnogwyd bron i 1,500 o unigolion. Gwnaeth 274 o ddisgyblion gofrestru am gefnogaeth rhaglen Profi gyda 656 yn mynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith, 175 wedi mynychu sesiwn creu CV, 127 wedi derbyn ffug cyfweliad, 341 wedi elwa o sesiynau mentora a 312 wedi mynychu profiad gwaith. Rydym wedi sicrhau bod 24 busnes/sefydliad yn gallu cynnig gwobr i'r bobl ifanc am fod yn rhan o'r cynllun. Cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre am yr ail dro yn 2019, ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin, sef un o brif ddigwyddiadau Cymraeg ardal Caerfyrddin a bu'n llwyddiant enfawr gan ddenu dros 4,000 o ymwelwyr.

Yn ystod Ebrill 2020 - Mawrth 2021 wrth i ni symud i weithredu'n ddigidol yn dilyn y pandemig, mae niferoedd mynychwyr/unigolion sydd wedi cymryd rhan yn weithgarwch y Fenter wedi cyrraedd miloedd ar filoedd. Mae'r Fenter wedi trefnu 148 o ddigwyddiadau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Rydym wedi trefnu 192 o ddigwyddiadau a gweithgareddau i deuluoedd ac wedi cynnig 251 o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'r gymuned.

## Mudiadau Lleol:

## Mudiad Meithrin:

Mae Mudiad Meithrin yn gweithredu yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr gyda nifer o gylchoedd a sesiynau Ti a Fi yn rhedeg. Gweler adran addysg, tabl 13 am fanylion am niferoedd cylchoedd yn yr ardal yng nghyfnod 2018 i 2019.

## Cymraeg i blant:

Mae Cymraeg i Blant yn gweithredu yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr gyda niferoedd o grwpiau yn cwrdd mewn gwahanol canolfannau a pentrefi. Mae'r grwpiau yn gweithio'n ddwys yn nhref Caerfyrddin. Gweler adran addysg, tabl 14 am fanylion nifer o grwpiau a mynychwyr yng nghyfnod 2019 i 2020.

## Yr Urdd:

Mae'r mwyafrif o ysgolion ardal y Fenter yn cymryd rhan yng ngweithgareddau a drefnwyd gan yr Urdd. Yn ogystal mae canghennau Adran ac Aelwyd gymunedol ar draws yr ardal yn cynnwys Adran Ffynnon Ddrain, Aelwyd Hafodwenog.

Mae wedi bod yn cyfnod anodd i'r Urdd yn ystod y pandemig. Bydd yr Urdd yn cyfathrebu a chydweithio'n agos gyda nifer fawr o bartneriaid gan gynnwys y Mentrau Iaith a mudiadau eraill wrth ail adeiladu gwasanaethau ar ôl y cyfnod hwn.

Bydd y cynlluniau ail-adeiladu yn cynnwys:

- Ail adeiladu'r rhwydwaith cenedlaethol o swyddogion cymunedol i gynnal darpariaeth chwaraeon, celfyddydau a chymunedol ym mhob awdurdod lleol.
- Ehangu darpariaeth Prentisiaethau mewn cyfnod heriol yn economaidd i gynnig cymwysterau a chyflogaeth yn y Gymraeg.
- Cynnal Eisteddfod T ddigidol gwell a mwy ym Mai 2021 a gosod y seiliau i gynnal Eisteddfod Canmlwyddiant yr Urdd mewn cas yn 2022.
- Ail gychwyn, yn unol â chyfyngiadau Covid-19, cyfnodau preswyl, mewn gwersylloedd ar ei newydd wedd yn dilyn buddsoddiad cyfalafol i'w uwchraddio.
- Paratoi ar ddathliadau canmlwyddiant yr Urdd a nifer fawr o ddigwyddiadau cyffrous ar draws Cymru a fydd yn ehangu'r cyfleoedd plant a phobl Ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Clybiau Ffermwyr Ifanc:

CFfI Sir Gâr sydd yn gyfrifol am oddeutu 654 o aelodau (cyn cyfnod Covid-19) ar draws 22 o glybiau Ffermwyr Ifanc sydd yn bodoli ar draws Sir Gâr. Er nad oes rheidrwydd i'r ffederasiwn weithredu yn y Gymraeg, mae CFfI Sir Gâr yn annog y clybiau i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 80% o'r clybiau yma'n gweithredu trwy'r Gymraeg yn unig.
O fewn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr mae 8 clwb, sydd yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn cynnig gweithgareddau trwy'r flwyddyn: Capel Iwan, Cwmann, Cynwyl Elfed, Hendygwyn-ar-Daf, Llanllwni, Pen-y-bont, Sanclêr a San Pedr. Lleolir y clybiau ar draws yr ardal, yn bennaf yn yr ardaloedd gwledig. Mae'r clybiau o amgylch ardaloedd Hendygwyn-ar-Daf a Llanymddyfri yn dueddol o weithredu drwy gyfrwng y Saesneg neu'n ddwyieithog.

## Clybiau Ieuenctid Eraill:

Lleolir Dr Mz's yng Nghaerfyrddin, sy'n ganolfan ieuenctid i bobl ifanc Caerfyrddin a'r cyffiniau, er mwyn cyfarfod a datblygu unigolion a grwpiau drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r clwb yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg.

## Clwb yr Urdd:

Fe wnaeth yr Urdd cychwyn clwb ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn nhref Caerfyrddin ond wedi gorffen oherwydd niferoedd isel yn mynychu.

## Canolfannau Teulu:

Ar draws ardal y Fenter mae yna 4 Canolfan Deulu agored, yn Llanybydder, Pencader a dwy yng Nghaerfyrddin (Tŷ Ni a Thŷ Hapus). Yn ogystal, mae un Canolfan Deulu statudol yng Nghaerfyrddin (Argel). Mae'r canolfannau yn rhoi cymorth i deuluoedd mwyaf bregus yn eu cymunedau, yn cynnig cyrsiau a gweithgareddau fel Iaith a Chwarae i deuluoedd, ac yn rhedeg grwpiau megis Cylch Ti a Fi yn rheolaidd.

## Merched y Wawr / Clybiau Gwawr:

Ar draws ardal y Fenter mae 19 cangen Merched y Wawr a 5 cangen Clybiau Gwawr, sydd yn rhoi cyfle i ferched gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Tabl 24: Niferoedd aelodaeth Canghennau Mercher y Gwawr a Chlybiau Gwawr yr ardal

| Cangen / Clwb Gwawr (CG) | Nifer aelodaeth |
|---|---|
| Abernant | 19 |
| Bargod Teifi | 17 |
| Bro Alma | 21 |
| Bro Elfed | 18 |
| Bro Gwili | 16 |
| Caerfyrddin | 36 |
| Capel Iwan | 15 |
| CG Alltgafan | 0 |
| CG Llanllwni | 11 |
| CG Merched Hywel | 22 |
| CG Myrddin | 16 |
| Geler | 25 |
| Glannau Piwbr | 19 |
| Gronw | 17 |
| Hendygwyn-ar-Daf | 15 |
| Llannau'r Tywi | 27 |
| Pencader a'r Cylch | 22 |
| Peniel | 33 |
| San Clêr | 29 |

Mae Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a'r Cylch a Bro Tysul yn agos i ardal y Fenter hefyd felly gall rhai o drigolion Menter Gorllewin Sir Gâr mynychu canghennau yma.

Yn ogystal, ceir sawl cangen o Sefydliad y Merched, sydd yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg, ar draws ardal y Fenter:
Castell Newydd Emlyn, Drefach Felindre, Llangeler, Llandysul, Pencader, Llanybydder, Trelech, Llanboidy, Llanwinio, Meidrim, Bancyfelin, Llangynog, Cynwyl Elfed, Newchurch, Llangynnwr, Peniel, Hendygwyn-ar-Daf, Llanddowror, Sanclêr, Talacharn, Llansteffan a Llangain.

## Yr Atom:

Agorwyd Yr Atom yn 2015 o dan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Nod y ganolfan yw Cymreigio tref Caerfyrddin ac i fod yn ganolbwynt i weithgaredd cyfrwng Cymraeg y dref. Mae'r Ganolfan yn gartref i fudiadau, grwpiau a sesiynau rheolaidd.

## Yr Egin:

Mae Yr Egin yn ganolfan greadigol a digidol wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mae Yr Egin yn gwasanaethu Sir Gâr a Chymru gyfan er mwyn cynnig cyfleodd yn y maes creadigol ac i feithrin talentau newydd. Mae'r Egin hefyd yn gartref i S4C sef sianel genedlaethol Cymru

## Clybiau Chwaraeon:

Mae amrywiaeth o glybiau chwaraeon ar gael ar draws ardal y Fenter yn cynnwys pêl-droed, rygbi, nofio, beicio, rhedeg, hoci, bowlio, criced, tenis, badminton, yoga ffitrwydd, gymnasteg, karate, pêl-fasged, athletau, pysgota, marchogaeth, golff, pêl-rwyd gyda'r defnydd iaith yn amrywio o glwb i glwb â'r mwyafrif yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg.

## Chwaraeon Eraill:

Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Sir Gâr wedi eu lleoli yng Nghaerfyrddin, Castell Newydd Emlyn a Sanclêr, ac yn cynnig amrywiaeth o chwaraeon ac offer cadw heini.

## Papurau Bro:

Ceir 4 papur bro yn ardal y Fenter; Y Garthen yn ardal Bro Teifi, Clonc yn ardal Llambed, Llanllwni a Llanybydder, Y Cardi Bach yn ardal Sanclêr a Hendygwyn-ar-Daf a Cwlwm yng Nghaerfyrddin. Rydym hefyd yn bwydo hanes y Fenter ym mhapur lleol Clecs Bro Cader ac yn bwydo gwybodaeth electronig mewn i wefan Bro 360.

# Astudiaethau perthnasol

## SWOT a PEST Tabl 25 a 26:

| | |
|---|---|
| **Cryfderau**<br>Nifer uchel o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.<br>Nifer uchel o weithgareddau Cymraeg yn yr ardal.<br>Mudiadau Cymraeg wedi'u sefydlu yn yr ardal. | **Gwendidau**<br>Diffyg cyfleoedd cyflogaeth.<br>Diffyg defnydd y Gymraeg gan nifer o gwmnïoedd, mudiadau a chlybiau cymunedol chwaraeon mawr yr ardal.<br>Prinder gwasanaethau oherwydd ardal weledig. |
| **Cyfleoedd**<br>Mwy o ddysgwyr gan fod twf yn niferoedd mewnfudwyr | **Bygythiadau**<br>Twf mewn mewnfudwyr.<br>Poblogaeth yn heneiddio.<br>Canran a niferoedd siaradwyr yn dirywio.<br>Diffyg swyddi felly pobl yn symud o'r ardal.<br>Dirwasgiad yn yr economi leol. |

| | |
|---|---|
| **Ffactorau gwleidyddol**<br>Newid mewn llywodraeth leol a pholisïau e.e. polisi iaith ac addysg a datblygu lleol | **Ffactorau economaidd**<br>Diffyg cynnydd mewn cyllid o grwpiau lleol.<br>Diffyg cyllid yn dod i'r Fenter.<br>Sector breifat yn dioddef yn sgil y clo mawr er yn gallu cynyddu gwerthiant dros y we a datblygu ffordd newydd o weithio ac i ddatblygu busnesau. |
| **Ffactorau cymdeithasol**<br>Nifer o weithgareddau Cymraeg a Saesneg.<br>Anodd cystadlu yn erbyn digwyddiadau Saesneg oherwydd poblogaeth yr ardal. Yn hytrach, cynnig cymorth cymreigio/codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | **Ffactorau technolegol**<br>Cyswllt gyda'r we a signal 3G a 4G. |

# Gwaith ymchwil

Mae'r Fenter wedi defnyddio pecyn Gweithredu'n Lleol er mwyn adnabod anghenion datblygu a gweithredu o blaid y Gymraeg o fewn y gymdogaeth micro mewn tair ardal sydd wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd blaenoriaeth yn ieithyddol o fewn ardal y Fenter. Cafodd grwpiau eu sefydlu er mwyn arwain a chynorthwyo'r gwaith ymchwil a gweithredu o fewn yr ardaloedd.
Dyma ganfyddiadau y dair ardal o fewn ardal y Fenter, sef Caerfyrddin, Castell Newydd Emlyn a Llanfihangel-ar-arth.

## Caerfyrddin (trefol):

Yn Ward Llangynnwr mae niferoedd gallu ieithyddol yn ôl oed yn amrywio o 2001 i 2011, gyda'r cwymp mwyaf rhwng 25-49 oed sef cwymp o 81 o bobl, 50.9% i 41.5%, a'r twf mwyaf rhwng 65-74 oed sef 33 o bobl, 57% i 45%. Yn Ward Caerfyrddin de mae'r cwymp mwyaf rhwng 25-49 oed sef cwymp o 98 o bobl, 38.8% i 28%, a'r twf mwyaf yng ngrŵp oedran dros 75 sef 33 o bobl, 57% i 53.7%. Yn Ward Caerfyrddin gogledd mae'r cwymp mwyaf rhwng 3-15 oed sef cwymp o 82 o blant/pobl ifanc, 43.5% i 40.3%, a'r twf mwyaf rhwng 50-64 sef 6 o bobl, 43.1% i 36.6%. Yn Ward Caerfyrddin gorllewin mae'r cwymp mwyaf rhwng 16-24 oed sef cwymp o 43 o bobl, 39.5% i 35.7%, a'r twf mwyaf yng ngrŵp oedran dros 75 sef 58 o bobl, 61% i 53.4%.
Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed yn ward Llangynnwr, yn 2011 allan o 299 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 74 sef 24.7% ohonynt, felly mae'r 225 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau. Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed yn ward Caerfyrddin de, yn 2011 allan o 390 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 157 sef 40.2% ohonynt, felly mae'r 233 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau. Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed yn ward Caerfyrddin gogledd, yn 2011 allan o 791 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 354 sef 44.8% ohonynt, felly mae'r 437 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau. Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed yn ward Caerfyrddin gorllewin, yn 2011 allan o 811 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 372 sef 45.9% ohonynt, felly mae'r 439 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau.

Prif heriau wardiau Llangynnwr a Chaerfyrddin yn ôl y cyfrifiad 2001-2011:

- 5,123 o drigolion y dref (wardiau Caerfyrddin) sydd yn siarad Cymraeg, sef 37.6% (treian poblogaeth Cymraeg eu hiaith ardal y fenter)
- 3 ward yn y dref o dan 40% am y tro cyntaf erioed. (43% yn 2001 felly dirywiad o 5.4%)
- Ers 1991 mae tref Caerfyrddin wedi colli 484 o siaradwyr Cymraeg. Hon oedd y gymuned a welodd y gostyngiad mwyaf yn ardal y fenter yn ystod y cyfnod yma.
- 39.8% o blant rhwng 3 ac 15 mlwydd oed sydd yn siarad Cymraeg yn y dref.
- Trosglwyddiad iaith;
  Llangynnwr - 72.7% o aelwydydd Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith, 0% mewn aelwydydd un rhiant a 60% mewn aelwydydd cymysg.

Tref Caerfyrddin de - 50% o aelwydydd Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith, 40% mewn aelwydydd un rhiant a 16.7% mewn aelwydydd cymysg.
Tref Caerfyrddin gogledd - 56.5% o aelwydydd Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith, 22.7% mewn aelwydydd un rhiant a 54.5% mewn aelwydydd cymysg.
Tref Caerfyrddin gorllewin 71.1% o aelwydydd Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith, 58.3% o aelwydydd un rhiant a 35.3 o aelwydydd cymysg.

- 1,902 o drigolion wardiau Tref Caerfyrddin yn nodi eu bod yn deall Cymraeg ond ddim yn gallu ei siarad.
- Mae'r nifer sydd yn gallu siarad Cymraeg yng ngrŵp oed 3 i 15 wedi cynyddu mewn dwy ward a dirywio mewn dwy ond mae'r canran wedi mynd i lawr mewn dwy a chynyddu mewn dwy. Mae hyn yn dangos bod poblogaeth y dref wedi cynyddu a bod nifer fawr o'r teuluoedd newydd yn dewis peidio anfon y plant i addysg Gymraeg.
- Mae'r nifer a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn dirywio wrth fynd o un grŵp oedran i'r llall. Mae rhesymau o allfudo Cymry Cymraeg yn un ffactor, diffyg defnydd neu gyfleoedd cymdeithasol yr iaith yn rheswm arall yn ogystal â difaterwch.

## Castell Newydd Emlyn (gwledig):

Wrth edrych ar gymuned (nid ward) Cenarth mae yna newid mewn siaradwyr Cymraeg o 2001 i 2011. Yn 2001 roedd 511 sef 51.3% ac yn 2011 roedd 434 sef 43.2%, gostyngiad o 77 a newid o 8.1%. Wrth edrych ar gymuned Chastell Newydd Emlyn mae yn newid mewn siaradwyr o 2001 i 2011. Yn 2001 roedd 649 sef 68.2% ac yn 2011 roedd 611 sef 53.7%, gostyngiad o 38 a newid o 14.5%.
Yn ardal ward Cenarth mae niferoedd gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn ôl oed yn amrywio o 2001 i 2011, gyda'r cwymp mwyaf rhwng 16-24 gyda gostyngiad o 78.8% i 49.8%.
Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed, yn 2011 allan o 300 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 54 sef 18% ohonynt, felly mae'r 246 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau.
Yn 2011 mewn aelwydydd gyda phlant rhwng 3-4 oed yn ward Cenarth, mae 11 sef 26.8% ohonynt yn aelwydydd Cymraeg, 7 neu 17.1% yn aelwydydd cymysg a 23 sef 56.1% yn aelwydydd di-Gymraeg. Yn y 26.8% sydd yn aelwydydd Cymraeg, mae 9.1% o blant methu siarad Cymraeg.

Prif heriau ward Cenarth yn ôl y cyfrifiad 2001-2011:

- Trosglwyddiad iaith: Mae ffigyrau yn uchel mewn cartrefi un rhiant gyda 100% yn trosglwyddo'r iaith, ac yn is mewn aelwydydd cymysg gyda 85.7% yn trosglwyddo'r iaith.
- Nid yw dylanwad addysg Gymraeg yn amlwg yn y ward gyda 72.7% o rhai rhwng 3-15 oed yn siarad Cymraeg, ac mae'r canran yn mynd yn llai wrth drosglwyddo o un grŵp oedran i'r nesaf.
- Cwymp mewn nifer o siaradwyr Cymraeg yn ôl oed; rhwng 3-15 oed mae cwymp o 4 o siaradwyr sef 6.6%, a'r cwymp mwyaf mewn nifer yn y grŵp oedran 16-24, sef 6 o bobl neu 29%.
- Mewnlifiad; cynnydd mewn canran o'r boblogaeth sydd wedi cael eu geni tu allan i Gymru, cynnydd o 3.9% a chynnydd yn y bobl uniaith Saesneg sef 11.6%.

## Llanfihangel-ar-arth (gwledig iawn):

Wrth edrych ar gymunedau (dim ward) yn cynnwys Llanfihangel-ar-arth mae yna newid mewn siaradwyr Cymraeg o 2001 i 2011. Yn 2001 roedd 1,321 sef 66.9% ac yn 2011 roedd 1,221 sef 57%, gostyngiad o 100 a newid o 7.6%. Wrth edrych ar gymuned Llanllwni mae yn newid mewn siaradwyr o 2001 i 2011. Yn 2001 roedd 431 sef 65.5% ac yn 2011 roedd 367 sef 58.9%, gostyngiad o 64 a newid o 14.8%.

Yn ardal ward Llanfihangel-ar-arth mae niferoedd gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn ôl oed yn amrywio o 2001 i 2011, gyda'r cwymp mwyaf rhwng 25-49 oed sef cwymp o 84 o bobl, gostyngiad o 61.6% i 55.3%, a'r twf mwyaf rhwng 65-74 oed sef 31 o bobl, newid o 54.5% i 51.3%.

Wrth edrych ar allu ieithyddol plant rhwng 3 a 15 oed, yn 2011 allan o 421 o'r boblogaeth, nid oes sgiliau Cymraeg o gwbl gyda 74 sef 17.6% ohonynt, felly mae'r 347 sy'n weddill â rhywfaint o sgiliau ieithyddol megis deall, siarad, darllen ac ysgrifennu neu gyfuniad arall o sgiliau.

Yn 2011 mewn aelwydydd gyda phlant rhwng 3-4 oed yn ward Llanfihangel-ar-arth, mae 28 sef 50% ohonynt yn aelwydydd Cymraeg, 15 neu 26.8% yn aelwydydd cymysg a 13 sef 23.2% yn aelwydydd di-Gymraeg. Yn y 50% sydd yn aelwydydd Cymraeg, mae 7.1% o blant methu siarad Cymraeg sef 26 allan o 28 o aelwydydd.

Prif heriau ward Llanfihangel-ar-arth yn ôl y cyfrifiad 2001-2011:

- Trosglwyddiad iaith: Mae ffigyrau yn is mewn cartrefi un rhiant gyda 80% yn trosglwyddo'r iaith, ac yn is fyth mewn aelwydydd cymysg gyda dim ond 46.7% yn trosglwyddo'r iaith.
- Dylanwad addysg Gymraeg yn amlwg yn y ward gyda 76.5% o rhai rhwng 3-15 oed yn siarad Cymraeg, ac mae'r canran yn mynd yn llai wrth drosglwyddo o un grŵp oedran i'r nesaf.
- Cwymp mewn nifer o siaradwyr Cymraeg yn ôl oed; rhwng 3-15 oed mae cwymp o 60 o siaradwyr sef 8.6%, a'r cwymp mwyaf mewn nifer yn y grŵp oedran 25-49, sef 84 o bobl neu 6.3%.
- Mewnlifiad; cynnydd mewn canran o'r boblogaeth sydd wedi cael eu geni tu allan i Gymru, cynnydd o 4.7% a chynnydd yn y bobl uniaith Saesneg sef 8.5%.

## Y Gymraeg yn Sir Gâr:

Fe wnaeth Gweithgor y Cyfrifiad Cyngor Sir Gâr baratoi ymchwil 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' yn 2014 yn dilyn cyfrifiad 2011 er mwyn ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi arwain at ddirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa.
Y Gymraeg yn Sir Gâr (llyw.cymru)

Bydd y wybodaeth ar ystadegau yn y proffil iaith yma yn cael ei ddefnyddio i lunio gweledigaeth strategol Menter Gorllewin Sir Gâr i'r dyfodol. Fe fydd yn sail i gynllun corfforaethol, targedau, prosiectau a cheisiadau cyllidol am y flwyddyn i ddod. Bydd y proffil iaith yn cael ei ddiweddu'r achlysurol pan fydd ystadegau, astudiaethau a pholisïau cenedlaethol newydd yn cael eu cyflwyno.